

ECO'R WYDDFA

Rhif 145

Mawrth 1989

Pris 20c

LLWYDDIANT YSGUBOL IEUENCTID DEINIOLLEN



Yr ieuencid — y brwdfrydded a'r dalent amlwg



40 blynedd o wasanaeth — y profiad a'r arweiniad. Y brodyr Robert Ogwen a William Orwig Williams o bobtu Meirion Jones.



Ian Saynor enillodd yr unawd rhwng 12 a 14 oed.

Bydd dydd Sadwrn, Chwefror 18 yn ddyddiad a fydd yn aros yn hir yng nghof rhai o aelodau seindorf ieuencid Deiniol. Yn wir, bydd yn ddyddiad a ddaw ag atogfion melyn i holl gefnogwyr a charedigion band y pentref.

Pencampwriaethau Gogledd Cymru ym Mangor oedd yr achlysur — cyfle i unawdwyr, deuawdau a phedwarawdau pres gorau'r rhanbarth i gystadlu am yr anrhydeddau.

Daeth llond gwlad ohonynt i fechgyn seindorf Deiniol — chwe gwobr gyntaf, un ail wobwr, un drydedd (Seindorf hyn) ac un chweched. Dyma'r manylion:

Gwobrau cyntaf:

Unawd 12-14 oed: Gavin Saynor; Unawd 16-18: Iwan Williams; Deuawd 12-14: Eilir

GWOBRWYO ADDEWID



Iwan Williams yn derbyn Tarian Teyrnged Mr a Mrs O M Jones, Bronallt, gan Hefin Jones am fod yr offerynwyr mwyaf addawol yn Seindorf Ieuencid Deiniol am y flwyddyn 1988. Os ydych angen mwy o brawf o hyn, darllenwch weddill y dudalen yma!

GWYDDONYDD IFANC I GYNRYCHIOLI GWYNEDD



Mae Amlwyn Llwyd Evans, Carwyn, Ffordd Bryngwyn, Llanrug newydd dderbyn anrhydedd go arbennig. Dewiswyd ef o blith holl ddisgyblion ysgolion uwchradd y sir i gynrychioli Gwynedd yn ystod Pythefnos Gwyddoniaeth Rhyngwladol i Ieuencid. Cynhelir yr achlysur yn Llundain rhwng Gorffennaf 26 ac Awst 9.

Williams ac Euros Williams;
Deuawd 14-18: Iwan Williams a Dylan Wyn Williams;
Pedwarawd dan 14 a'r Pedwarawd 14-18.

Ail wobwr:

Air Varie dan 18: Iwan Williams.

Trydedd wobwr:

Air Varie dros 18: Colin Williams.

Chweched gwobr:

Unawd 14-16: Dylan Wyn Williams.

Ond nid ieuencid Deiniol yn unig dderbyniodd anrhydeddau y Sadwrn hwnnw. Cyflwynwyd medalau Cymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru am ddeugain mlynedd o wasanaeth i fudiad y bandiau pres i Meirion Jones a'r brodyr Robert Ogwen a William Orwig Williams.

Bydd hyn yn brofiad gwerthfawr i Amlwyn — caiff gwrdd â gwyddonwyr ifanc o bob cwr o'r byd. Un o brif amcanion y pythefnos yw i feithrin cyfeillgarwch rhyngwladol drwy ddi-ddordeb cyffredinol mewn gwyddoniaeth a'i gymhwyso i broblemau cyfoes.

Yn ystod y pythefnos caiff y cyfle i fynychu darlithoedd a gwrandao ar wyddonwyr enwog yn trafod eu gwaith, bydd arddangosfeydd ac ymweliadau â sefydliadau ymchwil, adrannau prifysgol a safleoedd diwydiant.

Mae Amlwyn, sy'n 16 oed, yn astudio Mathemateg, Ffiseg, Cemeg a Ffrangeg yn y chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail.

ECO'R WYDDFA

RHIF 145
MAWRTH 1989

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir (871043)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Flynnon

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 30
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MAWRTH 21
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

40 OED!

Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn dathlu ei phen-blwydd

Annwyl Ddarllenwyr,

Eleni bydd y Gymdeithas
Ddawns Werin yn dathlu ei 40fed
pen-blwydd.

Bydd nifer o weithgareddau yn
cael eu trefnu er mwyn cofnodi'r
achlysur. Mae arddangosfa o
hanes y deugain mlynedd
diwethaf yn agor yn Llangollen
ar benwythnos 31 Mawrth; yr un
adeg a chwrs Pasg y
Gymdeithas. Yna bydd yr ard-
dangosfa'n mynd ar daith trwy
Gymru.

Mae nifer cyfyngedig o blatiau
dathlu, a gynlluniwyd gan David
Petersen o San Clêr yn Nyfed, yn
cael eu hargraffu i gofnodi'r
dathliad. Y gobaith yw iddynt fod
ar werth yn Llangollen ar
Fawrth 31, ac yna mewn gweith-
gareddau cyhoeddus y
Gymdeithas yn ystod y flwyddyn.

Hefyd ar y gweill mae llyfr yn
cofnodi hanes y deugain mlynedd
diwethaf. Os oes gyda chwi
unrhyw hen luniau neu hanesion
am y diwrnodiau cynnar, a fyd-
dech crystal â'u hanfon i:

Miss Mair Thomas,
28a Heol Llandeilo
Brynaman, Dyfed.

Yn ystod y Gwanwyn a'r Haf
bydd y gwyliau gwerin arferol yn
cael eu trefnu led led y wlad —
felly'r gobaith yw bydd pawb
wedi cael blas ar y dawnsio ar
gyfer y deugain mlynedd nesaf.

Yn gywir

Catrin Lewis Defis
Swyddog Cyhoedduswydd
Cymdeithas Ddawns Werin
Cymru

APÊL YSGOLORIAETH JOHN GWILYM JONES

Annwyl Olygydd,

Un o ddymuniadau'r diweddar
Dr John Gwilym Jones oedd

gweld sefydlu Ysgoloriaeth ar
gyfer astudio Llenyddiaeth
Gymraeg a Drama yn Adran
Gymraeg, Coleg y Brifysgol,
Bangor. Y mae'r Adran wedi der-
byn sêl bendith y teulu ar sefydlu
Cronfa Goffa at y bwriad hwnnw.
Dymuniad y teulu a dymuniad yr
Adran yw galw'r ysgoloriaeth yn
'Ysgoloriaeth John Gwilym
Jones'. Rhoddwyd hysbysrwydd
i'r bwriad hwn yn y Rhaglen
Deyrnged i'r Dr John Gwilym
Jones a drefnwyd gan Gwmni
Drama Eryri yn Theatr Seilo,
Caernarfon, 16 Tachwedd 1988
ac yn y Cyfarfod Coffa iddo a
gynhaliwyd yng Ngholeg Bangor
ar 10 Rhagfyr, 1988.

Y mae'r trefniadau i sefydlu'r
Gronfa erbyn hyn wedi eu cwbl-
hau. Gwahoddir cyfraniadau at y
Gronfa gan bawb sy'n gwerth-
fawrogi'r cyfraniad enfawr a
wnaeth John Gwilym Jones i
Llenyddiaeth Gymraeg a'r
Drama Gymraeg, ei gyfraniad i
Gymru a'i hiaith, neu'r cyfrani-
ad yr un mor sylweddol a wnaeth
i fywydau cymaint o bobl trwy ei
gyfeillgarwch a'i gymwynasgar-
wch.

Gellir anfon cyfraniadau at un
o'r ddau ohonom ni i'r cyfeiriad
a geir uchod. Dylid gwneud
sieciau etc., yn daladwy i
'Ysgoloriaeth John Gwilym
Jones'.

Yr eiddoch yn gywir,
Bedwyr Lewis Jones

Gwyn Thomas

Adran Gymraeg

Coleg Prifysgol Gogledd Cymru

Bangor

Gwynedd LL57 2DG

21 Ionawr 1989

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhod-
dion i gronfa'r Eco.

£250: Cyngor Cymuned Llanrug.

£50: Cyngor Cymuned Waunfawr.

£25: Cyngor Cymuned Llanberis.

£5: Di-enw, Llanberis; C E

Lovell, 14 Dol Eilian, Llanberis;

Di-enw, Llanrug.

£3: Mrs Doris Evans, Gwynfryn,

Parhad ar Dudalen 21

Mae Diwrnod Cenedlaethol Di-Ysmygu yn digwydd eleni ar Fawrth 8fed.

1. Mae ysmygu yn lladd 100,000 bob blwyddyn. Dyna 1
person bob 5 munud.

2. Mae mwg pobl eraill hefyd yn effeithio ar y rhai sydd
ddim yn ysmygu ac yn gallu achosi salwch.

3. Mae trin afiechydon sy'n gysylltiedig ag ysmygu yn
costio £500 miliwn i'r Gwasanaeth Iechyd bob blwyd-
dyn.

Os ydych CHI am roi'r gore i ysmygu ac eisiau mwy o
wybodaeth cysylltwch â'r Uned Hybu Iechyd, Adeilad
Ffriddoedd, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Heol
Fictoria, Bangor (Ffôn: 351149)

GALW CYN-DRINDODWYR

Annwyl Olygydd,

Cynehlir ad-uniad mawred-
dog, sef CROESO 80NAIN, yng
Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin
o nos Wener, Mawrth 31ain 1989
hyd y Sul, Ebrill 2. Mae'r ad-
uniad yn gyfyngedig i gyn-aelo-
dau y Gymdeithas Gymraeg,
Aelwyd Myrddin yn 1969 a'u
gwragedd, gwyr, a'u plant.

Dewch yn llu i weld hen gyfeil-
lion, ac i drafod yr ugain
mlynedd ddiwethaf a wibiodd
heibio.

Y gost am y bwrw Sul, yn cyn-
nwys gwely a brecwast dwy
noson, a chinio nos Sadwrn, fydd
tua £25 y pen, y plant i dalu am
eu bwydydd yn unig. Am fwy o
fanylion, archebu lle, ac ati,
cysyllter yn syth bin â:

Maldwyn Jones,

Adran Gymraeg,

Coleg y Drindod,

Caerfyrddin.

Dewch â hen luniau, sleidiau
neu ffilmiau o'r cyfnod gyda chi,
er mwyn i ni gael ail-fyw'r hen
amser.

Yn gywir iawn

Eirug a Gwenda Wyn

APÊL AR RAN Y SAMARIAID

Y mae cangen Gwynedd o fudiad
y Samariaid yn gweithredu o'r
ganolfan ym Mangor. Nifer o bobl
o wahanol alwedigaethau sydd yn
fodlon gwrando ar bobl eraill sy'n
cael bywyd yn anodd yw'r
Samariaid. Golyga hyn roddi
pedair awr yr wythnos yn wirfod-
dol i helpu eraill.

Y mae llawer iawn o bobl yng
Ngwynedd sy'n dymuno cynorth-
wyo'r Samariaid ond nad oes
ganddynt yr amser i allu gwneud
yr ymrwymiad i fod yn wirfod-
dolwyr.

Mae Cyfeillion y Samariaid yn
codi arian trwy gynorthwyo gyda
hysbysebu'r mudiad mewn gwa-
hanol ffyrdd. Maent yn cynnal
diwrnod baneri; gwerthu tocyn-
nau raffl; helpu mewn sioeau
amaethyddol; diwrnod agored ac
eisteddfodau (gan gynnwys yr
Eisteddfod Genedlaethol); mewn
mannau cyhoeddus ac arddangos-
feydd.

Os medrwch chwi ein cynorth-
wyo yn y gwaith hwn, neu yn
well fyth fel gwirfoddolwr llawn,
a wnewch chwi ffonio Bangor
354646 i roi eich enw os gwelwch
yn dda. Mae gwir angen yma am
siaradwyr Cymraeg yn enwedig.

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

Angen Tystiolaeth Annwyl Olygydd,

Ysgrifnaf atoch ar ran Grwp Statws Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fel rhan o'r ymgyrch dros DDEDDF IAITH NEWYDD. Fel y gwyddoch mae'r ymgyrch dros Ddeddf yn cryfhau ac yn ddiweddar yng Nghaerdydd gwelwyd dros 1000 o bobl yn dod ynghyd mewn Rali Genedlaethol i dystio i'r angen am ddeddfwriaeth gyflawn. Fodd bynnag er gwaethaf cryfder yr alwad yng Nghymru mae'r Llywodraeth yn gwrthod ildio ac yn parhau i ddadlau y gall Bwrdd Iaith di-rym, heb adnodau na deddfwriaeth yn gefn iddo, gyflawni mwy nac a allai DEDDF IAITH NEWYDD rymus.

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd Cymdeithas yr Iaith yn mynd ati i ddangos yr angen am Ddeddf drwy hel taflenni tystiolaeth fydd, o'u llenwi, yn dangos pam na all Bwrdd Iaith gyflawni dim heb Ddeddf gyflawn yn gefn iddo. Gwnawn apêl gyhoeddus ar i bobl lenwi cynifer o daflenni a phosib fel y gallwn roi taw unwaith ac am byth ar ddadl y Llywodraeth nad oes angen deddfwriaeth gyflawn i sicrhau dwyieithrwydd fel norm yng Nghymru.

Gobeithiwn ddefnyddio y taflenni i gydfynd â chyflwyno adroddiad cyntaf y Bwrdd Iaith i'r Llywodraeth ac felly apeliwn yn daer ar i bawb ddychwelyd eu taflenni erbyn diwedd Ebrill fan

bellaf. Os am fwy o daflenni neu am eu dychwelyd gellir gwneud hynny drwy'r cyfeiriad isod: Cymdeithas yr Iaith, Penroc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Dyfed (0970 624501)

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth

Alun Llwyd

Cadeirydd Grwp Statws
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Cân yr Ysgol

Annwyl Olygydd,

Apêl sydd gennyf y tro yma. Gweled dau lun yn Eco mis Chwefror 1989 o dimau criced a phêl-droed Ysgol Ramadeg Brynrefail. Dim ond dau rwyf yn eu hadnabod, sef Mr Thomas, y Prifathro a Mr James. Roeddwn yn ddisgybl yno rhwng 1937 a 1941. Ar ddiwedd tymor Haf fe fyddem yn canu cân. Y cwbl a gofiai yw "40 years on from afar and asunder".

Cân yr ysgol oedd rwyf yn siwr (ond tybed a wyf i yn breuddwydio) a hefyd rwyf yn meddwl ei bod yn perthyn i Goleg Eton.

Buaswn yn falch os gallai unrhyw un adael i mi wybod a yw yn bosibl prynu y geiriau a'r gerddoriaeth, ac ymhle. Diolch am eich papur da a fyddaf yn ei gael bob mis gan fy chwaer. Mae yn help mawr efo fy Nghymraeg. Yr eiddoch yn gywir

W. Jones

(Wilfred o'r Fachwen)

23 Woking Road

Parkstone

Poole, Dorset.

AGOR MEDDYGFA NEWYDD YN LLANRUG



Dr Raymond Williams, Dr Miles, Mrs Treen, Dr Gillian Bedford a Dr Huw Roberts ar achlysur agor y feddygfa newydd yn Llanrug.

Nos Fercher, Ionawr 25, cafwyd seremoni agoriadol y Feddygfa newydd ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Roedd y dewis o Dr Alwyn Miles fel gwr gwadd yn noson wedi plesio llawer o'r ardal. Bu Dr Miles yn feddyg teulu i ardal Waunfawr, Rhostryfan a Llanrug o 1934 hyd ei ymddeoliad yn 1969. Da oedd ei weld ef a Mrs Miles yn cadw mor heini. Disgrifiodd Dr Miles y newidiadau a gymerodd le dros yr hanner can mlynedd ym mhentref Llanrug, ond roedd yn hyderus y byddai'r agwedd bersonol o feddygaeth yn parhau yn yr ardal.

Cafwyd cyfle i ddiolch i bawb a helpodd wneud y fenter o godi'r Feddygfa yn ffaith. Cyn cychwyn cynllunio Meddygfa rhaid oedd cael caniatâd a chymorth y Gwasanaeth Iechyd drwy gyfrwng Pwyllgor Ymarferwyr Teulu Gwynedd, a chafwyd cyfle i ddiolch yn bersonol i'r cadeirydd, Mrs F Treen, MBE, a hefyd i'r gweinyddwr, Mr Arfon Thomas, a'r is-weinyddwr, Mr W Lewis. Talwyd teymged i weithgarwch Cyngor Eglwysig Plwyf Llanrug ac i'r Parchedig Elwyn Roberts, Bangor, a fu mor ddiwyd i sicrhau gwerthiant y darn tir a oedd mewn lle mor hwylus yng nghanol y pentref.

Croesawyd hefyd aelodau o'r Cyngor Lleol ac o Adranau Cynllunio a Thechnegol Cyngor Arfon gan ddiolch iddynt am hwyluso'r gwaith paratoadol.

Wrth gwrydro o gwmpas yr adeilad gwerthfawrogwyd gwaith y Pensaer, Mr Graham Hughes ac hefyd yr adeiladwyr, sef y Brodyr David a Trefor Beech. Diolchwyd hefyd i ddau gyfaill arall, sef Evan Parry, Ceunant am ddyfeisio a gosod system oleuo ac hefyd i Gwilym Jones, Gorwel am roi y gwaith llechen hardd oedd newydd ei osod ar y wal tu allan.

Cafwyd cyfle i ddiolch i'r llu o'r ardal a fu mor hael yn eu cyfraniadau dros y blynyddoedd i Gronfa Offer y Feddygfa. Arian yw hwn a roddwyd yn lleol er cof am anwyliaid, a gwelwyd fel y'i defnyddiwyd i brynu'r offer diweddaraf at anghenion y cleifion.

Croesawyd aelod newydd o'r tîm meddygol, Dr Gillian Bedford — sydd yn ymuno i weithio rhan-amser efo Dr Williams a Dr Roberts.

Terfynwyd noson ddifyr gyda lluniaeth ysgafn.

Hwyl wedi eu cynnal yn yr ardal yn y bore. Mae Syr Wynff ynghyd â'i annwyl gyfaill hoff a thyner Plwmsan a holl griw y rhaglen deledu 'Hafoc' eisoes wedi dweud na fasan nhw'n methu'r Wyl Gyhoeddi am y byd, ac fe fyddan nhw yng Nglynllifon. Pnawn o HWYL sydd ar y gweill, gyda seibiant yn y canol tua tri ar gyfer Seremoni'r Cyhoeddi.

Dyna pa bryd y gwêl Rhestr

Testunau Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990 olau dydd am y tro cynta, a fydd yna ond cwta flwyddyn tan y bydd Eisteddfod yr Urdd yn dod i'r ardal. Bryd hynny ein tro ni fydd estyn gwahoddiad i blant ac ieuenctid Cymru i ddod i'n hardal i Eisteddfota am wythnos.

DEI TOMOS

WYTHNOS O DDATHLU

Mae'r Urdd wrthi'n trefnu naw diwrnod o weithgarwch ar gyfer Gwyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sydd i'w chynnal yn yr ardal y flwyddyn nesa.

Bydd yr Wyl Gyhoeddi ei hun, bnawn Llun y cyntaf o Fai, yng Nglynllifon, ond bydd yr wythnos o hwyl wedi dechrau wythnos a rhagor cyn hynny ar ddydd Sul, Ebrill 23 efo Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghapel Seilo, Caernarfon am 10.30 y bore. Y noson honno hefyd fe fydd Cyngerdd gwerth chweil yn Theatr Seilo am wyth o'r gloch. Ar lwyfan y theatr yn diddanu bydd — Trisgell, Rhian Owen a Chôr Rhuthun a'r Cylch. Arwel Jones fydd yr Arweinydd.

Dramau fydd yn cael sylw nos Lun, gyda'r cwmnïau a'r lleoliad i'w cadarnhau eto. Tro'r beirdd fydd hi nos Fawrth, cynhelir Talwrn y Beirdd yn Llandwrog!

Ar feysydd pêl-droed Ysgol Syr Hugh, ac Ysgol y Gelli nos Fercher trefnir Cystadleuthau Pêl-droed ar gyfer timau ysgolion ac Adranau Pentref o dan 12 oed. Bydd y gemau ar gyfer timau 7-bob-ochr.

Dawnsio ac adloniant fydd y drefn ar gyfer nos Iau a nos Wener. Nos Iau yn y Majestic, Disgo i'r rhai dan 18 oed, yna disgo i'r rhai iau yn ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle ar y nos Wener. Rhagor o fanylion

ynglyn â'r dawnsfeydd i'w cyhoeddi eto. Dawnsio fydd yr atyniad nos Sadwrn hefyd, ond dawnsio o fath gwahanol! Yng Ngwesty'r Royal yng Nghaernarfon, Dawns Werin Fawreddog.

Nos Sul wedyn ym Mhenygroes yng Nghapel Bethel fy gynhelir Cymanfa Ganu. Terence Lloyd fydd yn arwain a'r unawdwr fydd Iwan Wyn Parry, a chyfraniadau hefyd gan Lleisiau'r Gweunydd. Am wyth y mae'r gymanfa.

Bydd gweithgareddau'r Wyl Gyhoeddi ei hun ar Galan Mai yn dechrau am un y pnawn yng Nglynllifon, er y bydd dwy Ras

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

TYSTEB DR. NORA MARREN

Mewn cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan nos Fawrth, Chwefror 14, pledleisiwyd i agor Tysteb i Dr Marren ar ei hymddeoliad fel meddyg teulu yn yr ardal.

Os ydych yn dymuno cyfrannu i'r gronfa, bydd cyfle i chwi wneud hynny trwy fynd i Lyfrgell Deiniolen, rhwng 11 y bore a 7 yr hwyr dydd lau a dydd Gwener, Mawrth 2il a'r 3ydd, pryd bydd rhai'n barod i dderbyn eich rhoddion. Diolch yn fawr.

GAIR O DDIOLCH

Oherwydd cyflwr iechyd bu raid i Owie a Beryl Hughes, Rhydfadog, roi'r gorau iddi yn y siop.

Dymunem ddiolch o galon i bawb am y gefnogaeth dda a gawsom, hefyd diolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbynia-som.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Doris Pleming, 12 Maes Gwylfa, ar ddod yn

nain am y tro cyntaf, sef i Rhys, mab Ronald ac Elizabeth, Llanrug.

APÊL AIL-DOI: Fe gynhelir Noson Goffi tuag at Apêl Ail-doi Capel Ebeneser yn y Ffestri am 7 o'r gloch, nos Wener, 17 Mawrth.

NEWYDDION Y SEINDORF: Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Ionawr a Chwefror:

Ionawr

£20: Mrs Glenda Morris, Llanrug, c/o Goronwy;

£15: Mrs Rita Woods, Dinorwig, c/o G Oliver;

£10: Mrs B P Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig.

Chwefror

£20: Mrs Meinir Williams, Bethel;

£15: Mr D H Evans, 5 Tai Gweledfa, Deiniolen;

£10: Len Jones, Hafod Oleu, Deiniolen.

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Chwefror 6ed dan arweiniad Mrs Eirlys Lloyd Jones, y Llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a darllenwyd

y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Croesawodd Mrs Jones y ddau wr gwadd, sef Mr Rowlinson a'i gyfaill a ddangosodd ffilm ini yn sôn am gwn achub. Diolchwyd i'r ddau gan Mrs Marian Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Beryl Hughes a Mrs Marian Wyn Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs H J Thomas. Croesawyd aelod newydd sef Mrs Esther Ann Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 6ed, sef Cinio Gwyl Ddewi.

CLWB ELIDIR: Cafwyd cyfarfod o'r uchod ar y 25ain o Ionawr gyda rhai o'r aelodau yn adrodd eu hoff farddoniaeth. Rhoddwyd y te gan Mrs Blodwen Parry, Mrs Kate Griffith, Mrs O R Williams a Mrs Ellen Williams, a diolchwyd iddynt gan Mrs Jane Jones. Enillwyd y raffl, rhodd gan Mrs Alice Griffith, gan Mrs Dolly Brown.

Ar y 7fed o Chwefror treuliwyd prynhawn difyr iawn gyda Chwis dan ofal y Parchedig John Pritchard a diolchwyd iddo gan Mrs Ellen Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Megan P Morris, Mrs Sally Lewis, Mrs Betty W Davies a Miss Lizzie Thomas. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Betty W Davies, gan Mrs Sally Lewis.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod Ionawr ar yr 16eg dan arweiniad Mrs Buddug Jones, y Llywydd. Y wraig wadd oedd Mrs Janet Hughes, a chawsom sgwsr ddifyr iawn ganddi ar Goluro. Y model am y noson oedd Mrs Buddug Jones. Diolchwyd iddi gan Mrs Peri Evans. Rhoddwyd y te gan Mrs Betty Williams a Mrs Glenys Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Gladys Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 20fed pryd y bydd Mr Emyr Jones, Caernarfon yn ein diddori.

Yn y cyfarfod diwethaf ar Chwefror 20fed, dan lywyddiaeth Mrs Buddug Jones, pleser oedd cael croesawu Mr Emyr Jones o Gaernarfon i roi sgwsr ar 'Hen Chwarelwyr'. Cawsom noson ddi-fyr iawn yn ei gwmni a diolchwyd

iddo gan Mrs Eirlys Williams. Rhoddwyd y raffl gan Mrs B Jones ac fe'i enillwyd gan Miss Maller. Gwnaed paned gan Mrs E Williams a Mrs B Jones.

Anfonwn ein cofion gorau fel cangen at Mrs Dilys Hughes sydd newydd ddod adref o'r ysbyty.

Bydd ein Cinio Gwyl Dewi ar Fawrth 1af yn y Victoria, Llanberis. Miss Gwen Aaron, Rhiwlas fydd yn ein diddori ar Ebrill 18fed.

DIOLCH: Dymuna Mrs Jane Jones, Stryd Newydd ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd ar Chwefror y 14eg. Diolch i chwi oll.

DIOLCH: Hoffai Pwyllgor yr Ysgol Feithrin a phwyllgor Apêl Ail-doi Capel Ebeneser ddiolch o galon i bawb a fu ynglyn â'r cyngerdd a gynhaliwyd yn y capel ar Ionawr 20fed. Diolch arbennig iawn i'r artistiaid am eu parodrwydd i gyfrannu at noson gofiadwy. Gwnaethpwyd elw o £260 ac fe'i rhennir rhwng y ddau achos.

YR YSGOL FEITHRIN: Ar nos Wener, Mawrth 10fed, cynhelir disco i'r plant yn Ysgol Gwaun Gynfi, gan ddechrau am 6.30 o'r gloch i'r plant ieuengaf ac am 8 i'r plant hyn. Bydd y manylion terfynol i'w cael ar y posteri a ddsberthir o gwmpas y pentref.

COFIO LLUN...

Llun o Ysgol Llandinorwig neu Ysgol y Garnedd a ymddangosodd yn yr Eco mis Rhagfyr 1988. Dyddiad y llun yw 1928 neu 1929.

Richard Arthur Jones; Gwilym; John Roberts; ?; John Henry Williams; David Emlyn Evans; Goronwy Williams; David Orwig Thomas; Bobbie Roberts;

Irene Price; Veronica Edwards; Morfudd Williams; Hannah Rowlands; Clara Morris; Mary Owen; Katie May Jones; Nancy Roberts; Mair Williams; Gwyneth Jones; ?; John Thomas

Wil Parry; Robert Gwilym Lewis; ?; Morris Williams; Jennie Parry; Edith Wyn Parry; yr eneth fach yn sefyll?; Hywyn Jones; Arthur Thomas.

Derbyniwyd yr enwau canlynol trwy law Mrs Veronica Hughes, 6 Stryd Victoria, Caernarfon (gynt o Gallt y Foel).

DRAENOG

Colli'r Cathod o Dan-y-Buarth

A glywsoch am Wil a Les, yn eu dirfawr drallod?

Pa beth i wneud sydd yn anodd gwybod.

Colled enbyd mewn pla o lygod

Yw diflaniad sydyn chwech o gathod!

Pwy yw'r troseddwr, anodd dyfalu?

Amheuir llawer, peth hawdd yw hynny,

Fcellai fod yn ddyn, neu fronwen, pwy wyr,

Beth bynnag oedd, bu diflaniad llwyr.

Yn ein trefydd mawr collwyd llawer pwsî,
Dynion drwg yn gwneud prês o'i chroen hi,
Gall hynny ddigwydd yma, yng Ngwaun Gynfi,
Daeth creaduriaid digon od i'n plith ni.

Mae Tan-Buarth ar derfyn Cefn-Coch,
Y troseddwr tebygol yw Siôn-Blewyn Coch,
Chwi gofiwch, gwnaeth lanast y llynedd run fath,
Eleni mae'n amlwg ei flys sydd am gath.

Eich colled sydd fawr, fe wyddom bois bach,
Ond cymerwch gysur, rydym ar drothwy'r mis bach,
Daw'r grempog, a cathod i herwa,
Ac yn fuan, bydd gormod o'r tacla.

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu

Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

"LLUNIAU BABIS LLANBABO"



Emma Lynn (dan 6 mis oed)



Jonathan Davies (6-12 mis oed)



Ffion (12-18 mis oed)



Rachel (2-3 oed)

Cynhaliwyd Sioe Fabanod gan bwyllgor Apêl Deiniolen at Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon. Uchod gwelir y buddugwyr ym mhob adran a'r gorau o'r goreuon oedd Ffion.

CYNLLUN FFRAMWAITH OLAF GWYNEDD?

Fis Ionawr, 1989, cyhoeddodd Cyngor Sir Gwynedd ddrast o'i Gynllun Fframwaith newydd er mwyn derbyn ymateb pobl y Sir. Yn y cynllun mae'r Cyngor yn gosod allan ei bolisiau fydd yn effeithio ar yr iaith, cymunedau, tai cyflogaeth, twristlaeth, yr amgylchfyd ac ati am y degawd nesaf.

Hwn fydd cyfle olaf Gwynedd. Mae'n sicr y bydd y degawd hesaf yn penderfynu tynged cymunedau Gwynedd a'i Chymreictod, sydd yn wynebu'r bygythiad mwyaf erioed. Yn sgil datblygu'r A55 ar arfordir y Gogledd, gwelwyd llu o hapasnachwyr a datblygwyr yn cynnig pob math o gynlluniau er mwyn elwa ar y cynnydd yn hygyrchedd y Sir, ac mae'r farchnad rydd mewn tai ac eiddo eisoes yn chwalu cymunedau.

Er mwyn rhoi cyfle i bobl a mudiadau yng Nghwynedd ffurfio a lleisio barn am y cynllun a'i oblygiadau, mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi trefnu Cynhadledd, ddydd Sadwrn, 18

Mawrth am 10.30 yng Ngwesty Plas Maenan, Llanrwst.

Gwahoddiwyd siaradwyr o Adran Gynllunio Cyngor Sir Gwynedd, o Gymorth Tai Cymru, o Gyngor Diogelu Cymru Wledig, o fudiadau lleol sy'n ymwneud â materion cynllunio yng Nghwynedd, ac o Gymdeithas yr Iaith.

Estynnir gwahoddiad cynnes i gynrychiolwyr o fudiadau ac unigolion sydd â diddordeb i fynychu'r gynhadledd. Am fanylion pellach a ffurflenni cofrestru, cysylltwch ar unwaith â:

Swyddfa Cymdeithas yr Iaith,
Ty Glyndwr, 1 Stryd y Castell,
Caernarfon (0286 77543).

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFLUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

PARATOI AM GARNIFAL '89



Dewiswyd Lyndsey Vaughan Parry i fod yn Frenhines y Carnifal am 1989 a Ffion Haf Williams yn dywysoges. Gwelir hwy yn y llun gyda Brenhines a Thywysoges 1988, Nia Land ac Eiriona. Dewiswyd Maria Spinney i gynorthwyo'r Frenhines newydd a Geraint i gynorthwyo'r Dywysoges am eleni.

Ymddeoliad Alice Griffiths Llyfrgellwraig Deiniolen

Mi fentraf 'sgwennu gair neu ddau,
I ddiolch o fy 'nghalon;
I Alice Griffith, Tan-y-Bwlch,
Mor dyner ei gofalon.

Llyfrgellwraig oedd mewn pentre bach
Mor brysus â Deiniolen,
Yn rhoddi dewis doeth i mi,
Mor ddifyr pob tudalen.

Fe gerddodd hon drwy'r gwynt a'r glaw
I agor drws y Llyfrgell,
I blesio holl drigolion bro,
Rhaf agos ac anghysbell.

Dewisodd hon lenyddiaeth gwlad
Er mwyn i mi gael pori;
I eraill myrdders, a romans,
Nofelau, neu lyf stori.

Mae gwreiddiau hon yn agos iawn
I'w bro a'i hen gynefin;
A hithau'n dal yn ffyddlon iawn,
Fel asgwrn-cefn i'r werin.

Dymunwn iddi bopeth da
Wrth iddi 'nawr ymddeol;
Pob bendith, lwc a iechyd hir,
Dedwyddwch i'r dyfodol
John V Morris, Rhianfa

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhad buan i Mrs M Williams, Goleufryn a Mrs Veronica Morris, Becws ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Iorwerth Jones, Min-y-Don ar fod yn daid a nain, ac i Mr a Mrs Myrddin Owen, Glandwr ar fod yn hen daid a nain; ganwyd mab, Andrew, i Dylan a Catherine ym Mrynrefail.

CLWB POBOL Y CWM: Yn anffodus oherwydd gwaeledd ac achosion gwahanol roedd amryw o'r aelodau yn absennol yng nghyfarfod pnawn lau, Ionawr 26 a threfnwyd Bingo gyda Mrs E Price yn galw. Diolchodd y Llywydd iddi am ei chymwynas barod ac i Mr a Mrs R Roberts am ofalu am y baned a Mr a Mrs R Rowlands am y raffl.

Dydd lau, Chwefror 9, dan gyfarwyddyd Mr R H Parry, trefnwyd rhaglen yn egluro cychwyn a datblygiad y Clwb. Mae yn un o weithgareddau yr ardal sydd erbyn hyn yn sefydlog ac yn denu diddordeb a phleser i'r aelodau. Darparwyd y rhaglen ar gyfer papur llafar Arfon i'r deillion.

Cymerwyd rhan gan Mrs K Watkins, Mrs G Chick, Miss E Hughes, Mrs E Hughes, Mr R Roberts a'r Llywydd, Mr Llew Hughes. Diolchwyd i Miss E Hughes a Mrs E Hughes am ofalu am y te a'r raffl.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990

WYTHNOS Y CYHOEDDI
Naw diwrnod o weithgarwch ar draws Dyffryn Nantlle ac Arfon. Digwyddiadau bob dydd o ddydd Sul Ebrill 23, hyd ddydd Llun, Mai 1af. Yr Wyl Gyhoeddi ar Galan Mai yng Nglynllifon.

Cadwch yr wythnos yn rhydd ar gyfer Cyngerdd, Cymanfa, Gemau Pêldroed, Dramau, Gwasanaeth, Talwrn y Beirdd, Dawnsfeydd a Thwmpath Dawns, Rasus Hwyl a Ffair y Cyhoeddi.

LLANRUG

DIOLCH A CHROESO: I Owain Eilir, 18 Hafan Elan am ddos-barthu'r 'Eco' ar hyd ffordd Bethel, o Sgwâr y Post i'r Crawia am gyfnod o 5 mlynedd. Mae bellach yn cael gorffwys o'r gwaith. Teulu Dafydd Lloyd Owen, Tai Brynafon, Crawia, fydd yn gyfrifol am y dosbarthu o'r rhifyn hwn ymlaen.

DIOLCH: Dymuna Ron ac Elizabeth Fleming, 13 Bryn Moelyn, Llanrug ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl gardiau a rhoddion a dderbyniwyd ar achlysur geni eu mab cyntaf, Rhys, ar Ionawr 21ain. Dymunant ddiolch yn arbennig i'r meddygon teulu, Waunfawr, a staff Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

CLWB IEUENCTID: Mae'r Clwb yn cael ei gynnal yn ystafell y chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail ar nos Lun a nos Iau am 7 o'r gloch.

Ar nos Lun rydym yn cael defnyddio y gampfa i chwarae gwa-hanol gemau. Mae yno ddau fwrdd pwl, bwrdd tenis bwrdd, dartiau, cyfrifiadur, teledu a fideo ac mae pawb yn gwrando ar fiwsig.

Ar nos Iau byddwn yn cael edrych ar ffilm fideo ac ar hyn o bryd, mae yna hyfforddwr yn dod i'r clwb i roi gwersi mewn hunan amddiffyn.

Byddwn yn mynd ar dripiâu gyda'r clwb i wahanol lefydd — hyd yn hyn rydym wedi bod yn y Ganolfan Hamdden dair gwaith, mewn clybiau eraill yn cymeryd rhan mewn cystadlaethau, yn yr Octagon ym Mangor a bu llawer o'r aelodau yn Yr Wyddgrug yn ddiweddar yn cymeryd rhan ar y rhaglen Stid ar S4C. Bydd y clwb yn gorffen y tymor gyda thrip i Alton Towers ym mis Mawrth.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Mwynhaodd aelodau'r Gymdeithas noson o adloniant gan Barti Wygyr, nos Fercher, 18fed o Ionawr. Llywydd y noson oedd Miss Malan Roberts a chafwyd y diolchiadau gan Mrs W O Roberts.

Yna nos Fercher, 1af o Chwefror, daeth Mrs M Vaughan Jones, Waunfawr i'r Gymdeithas a rhanwyd yr aelodau yn ddau grwp a

chafwyd cwis a sleidiau o Gymru. Llywydd y noson oedd Miss Meirwen Roberts. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Beryl Thomas. Trefnwyd paned gan Mrs K Pritchard, Mrs M Williams, Mrs C Roberts, Mrs J Hughes, Mrs I Butler, Mrs E Ellis Owen a Mrs A Parry. Diolchwyd iddynt gan Mrs J Parry, Hermon.

Nos Fawrth, 7fed o Chwefror, aeth yr aelodau i Gapel Cysegr, Bethel i ymuno ac aelodau Cymdeithas Undebol Bethel. Llywydd y noson oedd y Parch W R Williams, a chafwyd cwis wedi ei drefnu gan Dafydd a Llinos Williams. Diolchwyd ar ran Cymdeithas Llanrug gan Mr J W Owen.

Cyfarfu'r Gymdeithas eto ar 15fed o Chwefror a'r siaradwr gwadd oedd y Parch Ronald W Roberts. Llywydd y noson oedd Mrs Eileen Williams. Trefnwyd paned gan Mrs J Parry, Miss Meirwen Roberts a Mrs Myfi Roberts. Diolchwyd i'r gwr gwadd gan Mrs W O Roberts ac am y baned gan Mr Alf Parry. Erbyn y bydd yr Eco allan bydd cyfarfod olaf y Gymdeithas ar ddigwydd, sef dathlu Gwyl Ddewi efo swper yng ngwesty Fictoria Llanberis ar Fawrth 3ydd.

AR Y TELEDU: Yn ystod y mis diwethaf gwelwyd brawd a chwaer ar y teledu. Ar y Byd ar Bedwar ddiwedd Ionawr roedd Gareth, mab Alf a Mai Parry, Bryn Heli, yn siarad ar ddiogelwch ar y rigiau olew pan oedd yn gweithio arnynt fel daearegwr. Yna nos Sul, Chwefror 19, gwelwyd Helena, eu merch, yn sôn am ei dewis o emyn ar Dechrau Canu, Dechrau Canmol.

GWELLHAD: Da yw deall fod Mrs Doris Evans, 4 Glanffynnon, yn gwella yn dda ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Ron a Doris Evans, 4 Glanffynnon sydd yn dathlu eu Priodas Arian ddiwedd Chwefror.

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod mis Chwefror daeth Mrs Jean Evans atom i sgwrsio am

gynllun y Jigsô Lleol. Wrth feddwl am y fro a'r gymdeithas o'n cwm-pas — a ydym ni yn fodlon arnynt? A oes rhywbeth yn ein poeni ni yn ein hardal? Sut y gallwn ddatblygu a gwella ein cymuned? Yn awr yw'r amser i ni weithredu cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Mae modd cael mwy o wybodaeth oddi wrth y Comisiwn Cefn Gwlad, Ladywell House, Y Drenewydd, Powys.

Diolchwyd iddi gan Bethanne Williams. Mary Parry enillodd raffl y mis. Margaret Parry, Mary Roberts a Menna Williams fu'n paratoi paned a diolchodd Meryl Green iddynt.

Byddwn yn dathlu Gwyl Ddewi yn ein cyfarfod nesaf ar Fawrth 14eg yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Cynigir Scampi neu Gwyl lâr mewn basged am £2.50. Enwau ac arian rhagblaen i Nan Humphreys neu Margaret Parry os gwelwch yn dda. Bydd adloniant gan aelodau'r gangen.

YSGOL GYNRADD: Ar hyn o bryd mae Lowri Ann Pritchard, dosbarth derbyn yn cael triniaeth mewn ysbyty yn Leeds. Anfonwn ein cofion anwylaf a'n dymuniadau gorau ati hi a'i rhieni sydd yn aros yno gyda hi.

Ddechrau mis Chwefror aeth nifer o blant Safon 3 gyda Mr Twrog Jones ar gwrs Cymraeg preswyl i Goleg Glynllifon. Buont yn gweithio'n galed yno ond fe gawsant amser difyr iawn.

Yn ystod y mis diwethaf cafodd timau chwaraeon yr ysgol ddwy gêm bob un. Colli oedd hanes y tîm pêl-droed yn erbyn Ysgol Dolbadarn tra bu i'r tîm pêl-rwyd ennill, yna cafwyd dwy gêm gyfar-tal yn erbyn timau o Ysgol Bontnewydd.

Cafwyd 'Gwledd Gerdd' ar lwyfan Ysgol Brynrefail ar y 10fed o Chwefror. Roedd rhai o'r genethod hynaf, ynghyd â phlant o Ddolbadarn yn cyflwyno drama gerdd 'Y Dilyw'. Cawsant bleser mawr yn paratoi a pherfformio yng nghwmni Rhian Owen, Sian Gibson a Ruth Lennon Rowlands.

PLAID CYMRU: Daeth yr Athro Bedwyr Lewis Jones i gyfarfod olaf y gangen a chawsom anerchiad hynod o ddiddorol ac addysgiadol ganddo. Bu trafodaeth

fywiog a hwyliog yn dilyn.

Croesawyd yr Athro a'r gynulleidfa gan Phyllis Ellis, a dymunodd yn dda i'r aelodau oedd yn cwyno yn eu cartref ac i John Rowlands a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Mynegwyd cydymdeimlad â Mrs G M Jones, Dalar Deg yn y brofedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith yn Llanbrynmair. Anfonwyd llongyfarchiadau i Angela a Dyfan Roberts ar enedi-gaeth eu mab bychan, Cai Dyfan.

Diolchwyd i'r darlithydd gan Dafydd Whiteside Thomas. Enillydd y raffl oedd Helen Parry. Cynhelir y Ffair Wanwyn nos Fercher, Ebrill 19 yn yr Ysgol Gynradd. Gwahoddwn bawb yn gynnes i'r Ffair a derbynnir rhod-dion at y stondinau gan unrhyw un o'r pwyllgor.

GENEDIGAETH: Ar Ionwr 28 yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor ganwyd Cai Dyfan, mab bychan Angela a Dyfan Roberts, Melin Crawia a brawd bach i Llyr a Hawys. Llongyfarchiadau cynnes iddynt fel teulu. Dymuna Angela a Dyfan ddiolch i staff yr ysbyty am eu gofal a'u caredigrwydd ac i bawb am eu dymuniadau da a'u llongyfarchiadau ar enedigaeth Cai Dyfan.

DIOLCH: Dymuna Mrs Doris Evans, Gwynfryn, 4 Ffordd Glanffynnon ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, ffrindiau a chym-dogion am eu careidgrwydd tra bu yn Ysbyty Dewi Sant yn ddiweddar ac wedi dychwelyd gartref.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Y Parch W R Williams, y Felinheli oedd y siaradwr yng nghyfarfod o'r Gymdeithas ar Chwefror 30ain. Cafwyd noson eithriadol o hwyliog a diddorol wrth iddo sôn am hen gymeriadau ar Ynys Môn. Llywydd y noson oedd Mrs M LI Williams a thalwyd diolch i Mr Williams gan Mr Emrys Owen, ac ategwyd gan y Parch John Morris.

Nos Fawrth, 21ain o Chwefror, cafwyd Miss Doris Adlam, Penisarwaun yn rhoi o'i phrofiadau yn ystod ei gwaith yng Nghaerdydd.

Talwyd diolch iddi gan y Parch Eryl Blainey. Bydd yr aelodau yn dathlu Gwyl Dewi ar y 7fed o Fawrth, gyda Mr D Whiteside Thomas yn wr gwadd.

**EMYR LL.
PARRY**

M.S.S.CH., M.B.CH.A.

CHIROPODIST

GWASANAETH

CARTREF

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn: (0286) 5754

(Gyda'r nos)

**HOME IMPROVEMENT
CENTRE**

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer...

Paent, Papur wal,
Anghenion addurno,
Coed, Tywod, Gro,
Brics, Blociau,
a Sment,
Offer plymio

Anghenion Tŷ,
Garddio,
Hadau Unwin,
Hardware, nwyddau
Ironmonger
Teganau

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

BYSUS BACH Y WLAD

Yn ddiweddar deuthum ar draws nodiadau a ysgrifennodd fy nhad yn olrhain ei gysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal hon. Yn wir, treuliodd hanner can mlynedd yn llythrennol "ar y bysus". Bedyddiwyd ef yn Richard Jones, adwaenai pobl Llanrug ef fel Dic Minffordd — ond i drigolion pentrefi bro'r Eco — Dic Peris neu Dic Motor ydoedd.

Dechreuodd weithio ym mis Awst 1917 gyda Caernarvon Motors neu Motor Aston fel y'i galwyd bryd hynny. Gwasanaethai'r cwmni hwn rhwng Caernarfon a Deiniolen. Trwy Fethel y trafiaelai'r bysus a'r pris i deithwyr y pryd hynny fyddai deunaw ceiniog yn ôl a blaen. Trafaelai nhad i'w waith bob dydd ar gefn beic. Dechreuai weithio am hanner awr wedi wyth yn cario plant i'r 'County School' yng Nghaernarfon. Ar y siwmai hon o'r wlad y byddai'n casglu llythyrau gan drigolion ac archebion gan berchnogion busnesau yn y pentrefi. Byddai'r llythyrau a'r archebion wedi eu cyfeirio at sawl wr neu wraig busnes yn y dref. Byddai wedyn yn dosbarthu'r amlenni i'r busnesau perthnasol — cawsai flawd ieir o Evans a Lake; halen a bawd o W J Owen; ffisig o'r fferyllfa ac yn y blaen. Byddai gweision y gwa-hanol siopau yn hebrwng y nwyddau iddo i'r maes erbyn chwarter i ddeuddeg, eu rhaffu ac yna eu tynnu i fyny i dop y bws.

Ar ddydd Sadwrn byddai marchnad ar y maes lle y byddai ffermwyr yn prynu moch a lloi bach. Gan fy nhad y clywais y stori enwog honno am y ffermwr yn gofyn i ddreifar,

"Yda chi'n cario lloua ar y bys yma?"

"Ydan," oedd yr ateb cell-weirus, "neidia i fyny!"

Fel arfer ar dop y bws y cariai'r anifeiliaid — ond roedd lle hefyd i raffu "nialwch" o'i hamgylch. Byddai rhai yn sefyll ar y 'platform' bregus. Cofiai un dydd Sadwrn pan yn trafeilio o Gaernarfon am Fethel iddo weld rhywbeth yn disgyn a hongian o'i flaen. Stopiodd mor sydyn ag y gallai bws stopio'r adeg honno i ddarganfod dau fochyn yn hongian ac yn strancio'n lloerig. Rhywfodd roedd y ddau wedi

ymadael â'u hualau — ond wrth lwc yn dal yn sownd wrth y rhaf-fau.

Dotiai fy nhad at gerdd Rol Williams, Waunfawr i "Fysus Bach y Wlad".

"Gwir pob gair", meddai
"Fe gariwyd moch a 'lloua', cwn a ieir

Do, ganwaith yn eu tro,
A gwydr ffenast, paraffin
A bag o sment a grô,
A thynnwyd coes heb ddim sarhâd
Wrth fynd ar fysus bach y wlad ..."

Ar achlysur arall cofiai basio brêc a cheffyl a berthynai i Lewis Roberts ar allt Pontrug. Yn y fan rhoddodd y bws glec fyddarol — rhywbeth pur gyffredin yr adeg honno. Rhisiodd y ceffyl ymlaen rhyw ychydig gan droi y brêc a thafu'r teithwyr yn dwt i'r ffoes ar ochr y ffordd. Bu cryn gwyno wedyn.

Os bydd gofod yn caniatáu a'r golygydd yn teimlo'n glên — hoffwn barhau gyda hynt a helyntion bysus bach y wlad yn rhifynau nesaf Eco'r Wyddfa. Cofiwch mai nodiadau ail law sydd gen i. Beth amdanoch chwi ddarllenwyr sy'n cofio'r cynnodau cynnar yma? Oes ganddoch chi atgof neu ddau am eich profiadau ar y bysus? Os oes — rhowch wybod i mi:

Arwel Jones, Pant Hywel,
Pensiarwaun.

"Rhaid talu teyrnged, pwy a wâd,
I lu o fysus bach y wlad."

DRAENOG



Trelalon Rhyngwladol 1988
I'r Alban aeth bugellaid
I weld cwn gorau'r wlad,
A chychwyn yn reit brydlon
Er mwyn cael gwir twynhad,
Ond Huwcyn a ddaeth heibio
Rhyw un neu ddau mae'n ffaith,

Wel cysgwch adra hogia
Cyn cychwyn ar y daith.

CHWILOTA

"Teulu Morris Griffith"

Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco dangoswyd llun o Deulu Morris Griffith a oedd yn cadw siop yn Llanrug. Ychydig iawn o wybodaeth oedd genym am y teulu a'r siop. Bellach, daeth llawer iawn o wybodaeth i law ynglyn â'r teulu a'r siop. Ein diolch i Mr Owen Owen, 22 Bro Rhyddallt, Llanrug am gysylltu â ni, ac am roi'r manylion diddorol hyn i ddarllenwyr yr Eco.

Mab Llethr Ddu, Llanhaelhaearn oedd Morris Griffith. Dechreuodd weithio mewn siop yn ei gartref, ond wedi priodi â merch Llystyn Ganol, Bryncir, daethant i fyw i Lanrug, i gadw siop ar y sgwâr (Tai Plastirion). Mae'n debyg eu bod yno ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf, ac iddynt brynu'r siop gan deulu o'r enw Hughes. Bu iddynt ddau o blant — Gretta a Wil. Bu Gretta farw'n ferch ifanc (ddi-briod?) yng nghartref perthynas ym Mhorthmadog. Ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, aeth Wil i fyw at ei ewythr a'i fodryb (chwaer i'w fam), ac i helpu i ffermio Rhos Meulan, Llandwrog.

Bu farw rhyw flwyddyn yn ôl ym Mhenygroes. Bu gwraig Morris Griffith farw tua diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, ond ailbriododd Morris Griffith â merch o Lanrug oedd yn gweithio'n y siop. Tua 1922 gwerthwyd y siop i deulu Storer. Symudodd Morris Griffith a'i ail wraig i gadw Siop Prosser ym Mhenisarwaun am gyfnod byr, ac oddi yno i fferm fechan o'r enw Ynys yn ardal Dinas Dinlle.

Mae Mr Owen yn cofio mynd i'r siop yn blentyn: roedd yn ffrindia efo Wil, y mab. Siop groser oedd hi, gyda'r llythrennau M. GRIF-FITH yn fras uchwben y drws. Yn yr iard tu cefn cedwid bwydydd anifeiliaid a bawdia. Roedd yno stabal lle cedwid dau geffyl i helpu i gario allan. Byddai Mr Owen pan yn fachgen, yn cael gwaith i falu bwyd i'r ceffylau gydag injan law, ac yn cael llond dwrn o bethau da gan Morris Griffith am helpu. Mae'n cofio traction stêm Cwmni Evans a Lake o Gaernarfon yn danfon bawdia i'r siop. Byddai cymaint o swm gan y tractions stêm nes y byddai'n anodd iawn cael unrhyw geffyl i'w pasio ar y lonydd.

Mae'n debyg mai Morris Griffith oedd yr olaf i werthu bawdia o'r iard yng nghefn y siop, oherwydd y perchenogion newydd — teulu Storer — oedd y rhai cyntaf i ddechrau gwerthu glo yno.

Roedd gan Morris Griffith 'gig' hefyd, ar wahan i'r wagan cario nwyddau. Ar bnawniau Mercher, pan fyddai'r siop wedi cau, gwelid Morris Griffith a'i wraig yn cychwyn allan yn y 'gig' i ymweld â'u teuluoedd — Llethr Du, Llanhaelhaearn yr wythnos yma, a Llystyn Ganol, Bryncir yr wythnos wedyn.

Dyna'r wybodaeth fel y cafodd ei hadrodd gan Mr Owen. Ni wyddai fod gan Morris Griffith chwiorydd, ond credai fod dau o'i frodyr yn byw adref yn Llethr Du, Llanhaelhaearn. Gwyddom bellach beth yw'r cysylltiad â Rhos Meulan, Llandwrog. Ond pwy oedd y ddwy chwaer, a phle tynwyd y llun? Tybed oes rhywun o'r darllenwyr all ychwanegu at y wybodaeth werthfawr a dderbyniwyd eisoes?

CEUNANT

Gwenno Parri, Morawel

GOHEBYDD NEWYDD: Dalier Sylw mai Miss Gwenno Parri fydd gohebydd yr Eco yn Ceunant o'r rhifyn nesaf ymlaen. Tra'n croesawu Gwenno, diolchwn i'w thad, Mr E T Parry, am ei wasanaeth clodwiw i'r misolyn.

YMDDEOLIAD: Dymunwn ymddeoliad dedwydd a hapus i Miss Gwen Jones, Tir Glas. Bu'n gweithio'n rhan amser yn Swyddfa'r Post, Llanrug.

GWELLHÂD: Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i Mrs Olwen Jones, y Garth, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau,
raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:**
crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.
A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau hyn fod ar gael yn eich siop lyfrau lleol neu eich lyfrgell.

Y Carw Siglo

Mari Williams

Anturiaethau Carys ac Ian, brawd a chwaer ifanc, gyda charw siglo mewn siop yn y dref. Lluniau du-a-gwyn.

Gwasg Gomer.

£2.95. Clawr meddal.

Cyfres Dechrau Dysgu

Jenny Tyler a Robyn Gee

Addasiadau gan Wasg y Dref Wen

Dechrau Rhifo

Geiriau Croes

Cyfres o lyfrau gweithgarwch i'r plant lleiaf a'u rhieni fydd yn help i'r plant ddatblygu sgiliau ysgrifennu, darllen a rhifo.

Gwasg y Dref Wen (CBAC)

£1.99 yr un. Cloriau meddal.

Cyfres Pobl y Byd:

Busisiwe o Dde Affrica

Nancy Furell McKenna

Hanes merch o lwyth y Zulu yn Ne Affrica.

Reba o New Mexico

Jacqueline Fear a Sally Fear

Hanes merch o deulu Apache yn yr Unol Daleithiau.

Addasiadau Islwyn Griffiths

Ivan Corbett (CBAC)

£4.50 yr un. Cloriau caled.

Cyfres Posau:

Posau Pasg i Blant

M Angharad Roberts

Llyfryn o bosau crefyddol yn ymwneud â'r Pasg ar gyfer plant oed ysgol gynradd. Addas ar gyfer Ysgolion Sul.

Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol

70c. Clawr meddal.

Cymru a'r Byd

Goln. W Arthur Thomas a D Roy Thomas

Detholiad o Drafodion Economaidd a Chymdeithasol 1981-86 Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru yn cynnwys saith ysgrif gan arbenigwyr yn eu priod feysydd.

Gwasg Prifysgol Cymru

£4.95. Clawr meddal

Diwylliant, Iaith a Thiriogaeth

Culture, Language and Territory

Harold Carter

Darlith Radio Flynyddol BBC

Cymru. Dwyieithog

Y Gorfforaeth Ddarlledu

Brydeinig

£2.95. Clawr meddal.

Iesu yn yr Efengylau Synoptiadd

Diana Morgan

Cyfaddaswyd gan Meinir Lynch

30 o unedau wedi eu cynllunio i gyflawni anghenion cwrs astudiaethau crefyddol ar gyfer TGAU.

Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol

£4.95. Clawr meddal.

Sweet F.A.

Alun Peredur Jones

Stori brwydr Alun Peredur Jones, yn wreiddiol o Flaenau Ffestiniog, yn erbyn yr afiechyd Friedreich's Ataxia. Eisoes darlledwyd rhaglen deledu yn portreadu'r awdur — dyma gyfle i ddarllen ei hanes.

Cyhoeddiadau Mei

£4.00. Clawr meddal.

Wali Wmff

Mair Wynn Hughes

Wali Wmff! Person? Na. Anifail? Na, wel beth felly? Does neb yn siwr!

Llyfr stori i blant gyda lluniau gan Elwyn Ioan

Gwasg Gomer

£2.25. Clawr meddal.

Dyffryn Conwy a Cheinciau Eraill

Cymdeithas Cerdd Dant Cymru.

£2.50

Casgliad o ddeuddeg cainc wreiddiol ar gyfer y delyn gan nifer o wahanol gyfansoddwyr.

Dyddiadur Milwr a Gweithiau Eraill

Gwasg Gomer. £9.95

Detholiad o weithiau llenyddol Lewis Valentine, gol. John Emyr.

Rhwng Gwyl a Gwaith: Cyfrol 6 gol. R Alun Evans

Gwasg Gee. £3.50.

Criw o Fri

Gwasg Gomer. £2.25

Addasiad Ieuan Griffith o nofel i'r ardegau gan Michael Hardcastle.

Hafan Fach Am Byth!

gan Gwenno Hywyn

Gwasg Gomer. £1.75

Y teitl diweddaraf mewn cyfres o nofelau byrion i blant 7-10 oed (Cyfres Corryn).

Ambell Sylw

gan Alun Llywelyn-Williams

Gwasg Gee. £6.00

Y casgliad olaf o ysgrifau yn ymwneud â'n hanes a'n diwylliant. Chwaer-gyfrol i Nes Na'r Hanesydd.

Cadw Cyfrifon a'u Dehongli

gan G B Owen

Gwasg Gwynedd. £3.50

Yn y llyfr cyntaf o'i fath yn Gymraeg, ceisia'r awdur esbonio, mewn dull syml, sut i gadw cyfrifon ariannol a'u deall.

Adar Brith

Gwasg Gomer. £3.75

Storiau byrion gan Marged Pritchard

Crwydro'r Byd

gan Beti Rhys

Gwasg Gee. £3.00

Cofnod o deithiau'r awdures mewn nifer o wledydd yn Y Dwyrain Canol a'r Dwyrain Pell.

Pregethwr Mewn Sgert

gan Alwyn Thomas

Gwasg Gee. £2.50

Sgyrsiau radio a baratowyd gan yr awdur i'w darllen ar y rhaglen radio 'Rhwng Gwyl a Gwaith'.

Adar y Lleuad

D Brown a'i Feibion

(CBAC) £2.95

Llyfr ffeithiol, ynghyd â rhai chwedlau, am dylluanod gan G R Thomas.

Liwsy Regina

Christopher Davies. £6.95

Nofel serch gan Rhydwen Williams

Gwybodaeth am Lyfrau ar Sbectel

O heddiw ymlaen fe fydd modd i wylwyr S4C sy'n berchen ar setiau teletestun dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am lyfrau Cymraeg newydd wrth droi at dudalen 457 ar Sbectel.

Y Cyngor Llyfrau Cymraeg fydd yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth, ac o fewn oriau i'r manylion gyrraedd swyddfa Sbectel yn Llundain fe fydd yn ymddangos ar sgriniau teledu led-led Cymru. Bydd y rhestrau yn cael eu diweddarau'n wythnosol, gyda'r teitlau'n ymddangos ar Sbectel tua'r un adeg ag y byddant yn cyrraedd y siopau llyfrau.

Ar adegau pan fydd niferoedd mawr o lyfrau newydd yn ymddangos bydd modd diweddarau'r wybodaeth yn amlach. Gellir dangos hyd at 20 teitl ar unrhyw un adeg.

Yn ôl D. Philip Davies, Pennaeth Adran Gyhoeddusrwydd/Hybu Gwerthiant y Cyngor Llyfrau yr oedd y datblygiad yn un cyffrous ac arwyddocaol, ac yn enghraifft o'r cyd-dynnu sy'n bosibl rhwng y cyfryngau a'r byd llyfrau. "Yr ydym yn ddiolchgar i swyddogion Sbectel am eu cymorth a'u cydweithrediad," meddai, "ac yn hyderu y bydd y gwylwyr a'r darllenwyr yn elwa o'r gwasanaeth."

Am yr wybodaeth ddiweddaraf am lyfrau Cymraeg, felly, trowch at dudalen 457.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran Drafnidiaeth

GWILYM H. WILLIAMS

**BRYN DAIRY
2 BRYNHFRYD
BETHEL**

Ffôn

Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau



CARTREF YR HENOED

CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG

AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG


CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN

THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS

Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon

(0286) 4652

**OSMOND SHAW
DEINIOLLEN**



Gwerthu

a Thrwsio

Teledu Lliw Newydd

ac Fel Newydd

GWASANAETH

FFON 24AWR

LLANBERIS 870545

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)



Rhai o aelodau'r Urdd ddydd Mawrth Ynyd gyda'u crempogau.

URDD — ADRAN BENTREF:

Nos Fawrth, Ionawr 17: 'Fy Hoff Beth'. Daeth llawer o blant a gwa-hanol bethau i'w dangos a chawsant gyfle i ddweud ychydig am eu hoff wrthrych.

Ionawr 24: Mwynhaodd pawb y fideo 'Sam Tân'. Diolchir i Mrs Ann Paterson am ofalu cael y fideo.

Ionawr 31: Daeth Mrs Mary Elliot atom a chafwyd amryw o syniadau ar gyfer gwaith llaw erbyn Eisteddfod yr Urdd. Diolchwyd iddi gan Llion.

Chwefror 7: 'Dydd Mawrth Crempog' — a dyna'n union fu'r plant yn ei wneud gydag Anti Janice. Cafodd chwe bachgen a chwe geneth gyfle i wneud rhai. Dyfarnwyd crempog Andrew Paterson a Llyr Tegai fel y goreuon.

Chwefror 13: Bu 18 o'r plant yn ymweld â Stiwdio Sain, Llandwrog. Treuliwyd noson ddid-dorol iawn a diolchodd Dyfed i Mr Gareth Hughes Jones am ein tywys o amgylch y stiwdio. Diolchir i bawb a gynigiodd eu ceir i gludo'r plant yn ôl a blaen.

Chwefror 14: Daeth Mr Griff Roberts, Llanrug i ddweud tipyn am Gymorth Cyntaf. Diolchodd Louise i Mr Roberts.

Chwefror 21: Cafwyd gêm o 'Bingo Geiriau' gyda Mr Len Jones. Tim Owen a orfu. Diolchodd Owen i Mr Jones.

Dymunir pob llwyddiant i bawb fydd yn cystadlu yn y ddwy

Eisteddfod Gylch.

PWYLLGOR NEUADD: Treuliwyd noson ddifyr a hwyliog i ddathlu Dydd Gwyl Santes Dwynwen yng Ngwesty Fictoria Llanberis, nos Wener, Ionawr 27ain. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Phyllis Ellis, gan Margaret Williams ac Ann Jones, Waun. Diolchir i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

Y mae gan aelodau'r pwyllgor ffurflenni 'Budd Baw Buwch'. Brysiwch! Archebwch! Prynwch! ac efallai yr enillwch wobr deg o £25.

"Dewiswch sgwâr a gwariwch! A daw ein budd o din buwch."

Dim ond 50c y blwch!

Nos Wener, Mawrth 3ydd am 7.15 pm yn Neuadd yr Elgwys cynhelir noson o 'Gawl a Chân' i ddathlu Dydd Gwyl Dewi. Ceir eitemau gan y plant ac Eifion Harding. Bydd cawl cennin a thafell o fara ffres am y pris rhesymol o 50c, ac 20c i blant. Tynnir Clwb Cant Chwefror yn ystod y noson. Tynnir Clwb Cant Mawrth nos Wener, Mawrth 31 yn Sycharth am 7.00 pm. Tynnir Clwb Cant Ebrill, ar Fai 2il.

EGLWYS SANTES HELEN: Bydd Gwasanaethau'r Pasg fel â ganlyn:

Dydd Gwener y Groglith am 2 o'r gloch y prynhawn — Awr Dawel;

Sul y Pasg — Cymun Bendigald am 10.30 am.

YR YSGOL FEITHRIN: Rydym yn falch iawn o gael dweud am lwyddiant yr Ysgol Feithrin yn ystod tymor y Gwanwyn. Mae'r mamau wedi bod yn ddiwyd iawn yn paratoi gwaith ar gyfer y plant ac yn dysgu caneuon newydd iddynt, a'r plant yn amlwg yn mwynhau eu canu. Bydd y tymor yn gorffen ar y 16eg o Fawrth, ac yn ail ddechrau yn **NEUADD YR EGLWYS** ar Ebrill 4ydd. Bydd croeso cynnes i unrhyw riant neu warchodwr a'i blentyn ymuno â ni.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad iechyd buan i Mr William Jones; Dorothy Lamb; Susan Williams; Mrs Owen, Siop Gron a Mr Terry Lloyd, Meadow Creek wedi eu triniaeth yn yr ysbyty. Gwellhad buan hefyd i bawb sy'n sâl yn y pentref.

PROFEDIGAETH:

Ein cydymdeimlad dwysaf â'r canlynol sydd wedi colli anwyliad: Miss Mair Foulkes a Mr John Elis Williams.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs J Munro ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Croeso cynnes i Sarah Louise, cyntaf

anedig Mr a Mrs Woodcock, Ty Gwyn, Waun. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Mr a Mrs Dyfan Roberts ar enedigaeth eu mab.

Rydym yn hynod falch fod Mr Owen Thomas, 3 Tai Newyddion yn gwella a llongyfarchwn ef yn fawr ar gyrraedd yr oedran teg o 90 mlwydd oed.

DIOLCH: Dymuna Mr Owen Thomas ddiolch i'w berthnasau, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr iawn.

CLWB YR HEULWEN: Wedi ysbaid dros dymor y Gaeaf, bydd y Clwb yn ail gychwyn ar ddydd cyntaf y Gwanwyn, Mawrth 21ain yn Neuadd yr Elgwys.

TYSTEB

DOCTOR NORA MARREN

Derbynnir rhoddion at dysteb Doctor Nora Marren ar ei hymddeoliad fel meddyg teulu yn yr ardal.

Os ydych yn dymuno cyfrannu bydd i Mrs Pat Larsen, Llygad yr Haul, dderbyn eich rhoddion ym Mhenisarwaun. Bydd y gronfa yn cau ar Fawrth 14.



Plant yr Ysgol Feithrin yn mwynhau gwneud gwaith llaw.



Diolch i Mr Ernest Green (ail o'r dde yn y rhes flaen) am gael benthg y llun hwn o drip Clwb yr Heulwen, Penisarwaun i Landudno tua 25 mlynedd yn ôl, ym mws Eric Morris. Ydych chi'n nabod pawb yn y llun? Cewch y rhan fwyaf o'r enwau yn Eco'r Wyddfa mis nesaf.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol


J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898 (dydd)
Y Felinheli 670124 (nos)

Beth am ddysgu dreifio gydag

YSGOL YRRU BETHEL

Cysylltwch â

Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig 671009

YMLA O HYD

Archwiliad i'r Mewnudo yn Ardaloedd y Waunfawr a Betws Garmon 1976 — 1987

hefyd ystadegau am ddylanwad y mewnudo ar ysgolion dalgylch
Eco'r Wyddfa 1988

O bosib' fod rhywun yn datgan yn ddyddiol mewn rhyw gymuned neu'i gilydd yng Nghymru fod nifer y di-Gymraeg yn y gymdeithas yn cynyddu. Mae adwaith i'r fath sylw yn gwahaniaethu o berson i berson, o aelwyd i aelwyd, ac o gymdeithas i gymdeithas. Mae'n wir fod rhai ymysg y Cymry Cymraeg sy'n malio fawr ddim am ddirywiad cymdeithasol yr ardaloedd, eraill yn barod i ddatgan fod y broblem yn boendod iddynt.

Yn bersonol, credwn ers dwy neu dair blynedd bellach fod y mewnudo i ardaloedd y Waunfawr a Betws Garmon yn llawer gwaeth nag oedd y mwyafrif yn ei sylweddoli ac mae'r ystadegau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn gwireddu'r ofnau hynny. Bu amryw ohonom yn datgan ein pryder ynglyn â'r nifer o deuluoedd di-Gymraeg oedd yn sefydlu mewn gwahanol stadau ac yn enwedig mewn bron bob un o'r mân dyddynnod ar gyrion y cymunedau hyn — y tyddynnod ble bu gynt yr hen deuluoedd Cymreig yn magu teulu, buwch, llo a chorlan.

Amlygwyd y chwyldroad yma yn eglur pan euthum ati i ail-gyfrif nifer y ffermydd a'r mân dyddynnod a restrir yn y penillion a gyfansoddwyd gan y diweddar T H Williams (Tom y Garreg Fawr) yn nhri-degau y ganrif hon o dan y pennawd "Ffermydd y fro", hynny yw bro y Waunfawr a Betws Garmon. Yn ei gerdd ceir enwau 108 o dyddynnod wedi'u gwau drwy'r naw pennill. Erbyn heddiw 'does neb yn byw mewn 9 ohonynt, ond o'r 99 sy'n weddill, mae'r di-Gymraeg yn byw mewn 64 ohonynt a'r Cymry Cymraeg yn y 35 arall. Ceir newid mawr mewn hanner can mlynedd ac yn lle cyfenwau fel Evans a Hughesiaid gynt, fe geir yn awr gyfenwau dieithr fel De Lanerolle a Mumatz Al Daftari ar aelwydydd hen dyddynnod Hafod Olau a Threflan Uchaf. Aeth John Evans o'r Hafod Olau hwnnw i'r America ym 1792 i chwilio am lwyth o Indiaid o drâs Gymreig... tybed a welir disgynyddion yn dod i'r Waunfawr o'r America ryw ddydd i chwilio am weddillion y Cymry Cymraeg?

O fyfyrion eithaf trwyadl drwy Gofrestri Etholwyr y Waunfawr am y blynyddoedd 1976, 1982 a 1986 gwelir yn glir effaith andwyol y mewnlfiaid. Ym 1976, o'r 729 o etholwyr, amcangyfrifir mai 541 (74%) oedd nifer y Cymry Cymraeg a 188 (26%) yn ddi-Gymraeg. Ymhen chwe mlynedd, hynny yw ym 1982, roedd 746 ar y cofrestr ac o'r rhain, amcangyfrifir fod nifer y Cymry wedi gostwng o 541 i 517 a nifer y di-Gymraeg wedi cynyddu o 188 i 229, a chanran y Cymry yn 69% a'r di-Gymraeg yn 31%.

Erbyn 1986 mae'r newid yn sylweddol iawn. O'r 759 ar y Cofrestr amcangyfrifir bod 485 ohonynt yn Gymry Cymraeg eu hiaith a nifer y di-Gymraeg wedi cynyddu o 188 ym 1976 i 274 — ychwanegiad o 86 mewn deng mlynedd o'i gymharu â gostyn-

giad o 56 yn nifer y Cymry Cymraeg yn yr un cyfnod!

Amcangyfrifir bod 410 o aelwydydd yn y gymuned ym 1986 — o'r rhain roedd 261 (63.7%) ble'r oedd yr iaith Gymraeg yn iaith yr aelwyd a'r iaith Saesneg yn iaith y 149 (36.3%) o'r aelwydydd eraill.

Ymhen y flwyddyn — ym 1987 — mae nifer yr etholwyr dros 18 oed wedi cynyddu i 767, ac o ddadansoddi y rhif hwn mae nifer y Cymry Cymraeg yn 490 (63.9%) a'r di-Gymraeg yn 277 (36.1%), a'r canran yr un ag ym 1986. Amcangyfrifir bod 14 aelwyd yn ychwanegol erbyn 1987 ac o'r 424 roedd 267 (62.9%) ohonynt yn aelwydydd ble'r oedd yr iaith Gymraeg yn cael blaenoriaeth a 157 (37.1%) ble mae'r iaith Saesneg yn iaith ddyddiol yr aelwyd.

Mewn un mlynedd ar ddeg mae 51 yn llai o Gymry Cymraeg yn y Waunfawr ond 89 yn rhagor o'r di-Gymraeg mewn cymuned sydd yn dangos ond cynnydd o 38 yn nifer yr etholwyr dros 18 oed — hyn rhwng 1976 a 1987.

BETWS GARMON

Ym Metws Garmon bu'r dylanwad yn eithriadol ac mae wedi newid patrwm y gymdeithas yn llwyr.

Dylid egluro mai treflan yn cynnwys dau deras o dai, ychydig o dai annedd, a dwsin neu ragor o fan dyddynnod a rhai ffermydd mynyddig yw'r Betws bellach, heb anghofio'r llythyrdy, un dafarn ac un gwesty. Oherwydd y patrwm yma mae'r ardal o bosib yn darged delfrydol i'r mewnudwyr fel ag y mae'r Rhyd a'r Fachwen. Mae yn y plwyf dair mynwent — tybed a fydd y plwyf ei hun yn fynwent i'r iaith Gymraeg cyn diwedd y ganrif?


Rhwng 1981 a 1987 — chwe mlynedd yn unig — cynyddodd nifer yr etholwyr dros 18 oed o 114 i 135, a nifer yr aelwydydd o

MANYLION AM Y WAUNFAWR 1976-1987

Blwyddyn	Etholwyr	ETHOLWYR			
		Cymry	Canran	di-Gymraeg	Canran
1976	729	541	74.3%	188	25.7%
1982	746	517	69.3%	229	30.7%
1986	759	485	63.9%	274	36.1%
1987	767	490	63.9%	277	36.1%

Blwyddyn	Nifer yr aelwydydd	AELWYDYDD			
		Nifer yr aelwydydd Cymraeg	Canran	Nifer yr aelwydydd di-Gymraeg	Canran
1976	391	276	70.0%	115	30.0%
1986	410	261	63.0%	149	31.0%
1987	424	267	63.0%	157	37.0%

IAITH ETHOLWYR (18 oed) BETWS GARMON 1981-1987



CYMRY CYMRAEG

DI-GYMRAEG

57 i 64 — tipyn o syndod o gofio nad adeiladwyd yr un stâd o dai yn y fro, ond ni ellir anwybyddu'r ffaith i'r mewnudwyr addasu adfeilion hen adeiladau y mân dyddynnod a gosod carafannau i fyw i fwy nag un teulu, ac yn sgîl hyn cynyddodd nifer yr etholwyr.

Yn y gymuned mae'r Cymry Cymraeg yn y lleiafrif llethol — dim ond 44 allan o'r 114 ym 1981 (39%), ac ym 1987, 43 allan o 135 (32%). Roedd 57 o aelwydydd ar y cofrestr ym 1981 a'r di-Gymraeg yn trigo mewn 36 ohonynt. Erbyn 1987 dim ond 18 o'r 64 aelwyd oedd yn aelwydydd y Cymry Cymraeg (28%) — ffaith dorcalonnus yn wir!

YSGOLION DALGYLCH ECO'R WYDDFA

Mae yn y dalgylch 7 o ysgolion cynradd ac un ysgol uwchradd, ac anfonwyd at y prifathrawon i gael yr ystadegau am eu hysgolion hwy. Carwn ddiolch i'r chwe prifathro o'r ysgolion cynradd ac i brifathro Ysgol Brynrefail am eu

cyd-weithrediad parod, ac i swyddogion y Swyddfa Addysg am ganiatâd i gyhoeddi'r ffigurau a hefyd am ddarparu'r manylion am un ysgol gynradd ble gwrthododd y prifathro â chydweithredu yn yr archwiliad hwn.

Fel y gwelir oddi wrth y tabl isod mae un o bob tri o blant ysgolion cynradd y fro hon bellach yn dod o gartrefi di-Gymraeg, a 43% o'r plant a gychwynodd eu gyrfaedd yn yr ysgolion hynny fis Medi diwethaf hefyd yn ddi-Gymraeg. Rhaid cofnodi barn ddibetrus amryw o athrawon yr ysgolion hyn fod y plant, er yn dod o gartrefi di-Gymraeg, yn eithaf rhugl yn yr iaith Gymraeg ar hyn o bryd, ond gan mai Saesneg yw iaith yr aelwyd gartref, mae peth amheuan yn bodoli am sawl blwyddyn y bydd y plant hyn nid yn unig yn siarad Cymraeg ond hefyd yn rhan o'r bywyd cymdeithasol Cymraeg. Roedd lle i amau eu hymrwymiad wedi iddynt gyrraedd 13 oed.


JYST ABOWT

MANYLION AM BETWS GARMON

Blwyddyn	Etholwyr dros 18 oed	ETHOLWYR		Canran di-Gymraeg	Canran
		Cymry Cymraeg	Canran		
1981	114	44	39.0%	70	61.0%
1984	120	45	37.0%	75	63.0%
1987	135	43	32.0%	92	68.0%

Blwyddyn	Nifer yr aelwydydd	AELWYDYDD		Aelwydydd di-Gymraeg	Canran
		Cymry Cymraeg	Canran		
1981	57	21	37.0%	36	63.0%
1984	57	18	32.0%	39	68.0%
1987	64	18	28.0%	46	72.0%

MANYLION AM YSGOLION Y FRO



WAUNFAWR A BETWS GARMON am 1987

Etholwyr dros 18 oed	nifer y Cymry Cymraeg	Canran	y di-Gymraeg	Canran
902	533	60.0%	369	40.0%


Rhaid cyfaddef yn sgîl y sefyllfa dorcalonius sy'n bodoli yn yr ysgolion cynradd mai dipyn o syndod oedd sylwi ar yr ystadegau am Ysgol Brynrefail. Ym mis Hydref 1988 dim ond 14% o'r plant oedd yn dod o aelwydydd di-Gymraeg. Rhaid felly i leyg-wyr ofyn tybed nad yw y llanw ysgubol wedi cyrraedd Ysgol Brynrefail hyd yn hyn ond ei fod ar ddod yn y ddwy neu dair blynedd nesaf? Bydd sylwi ar ystadegau Ysgol Brynrefail yn y tair mlynedd nesaf yn ddadlenol iawn fe gredir!

Am y tro cyntaf erioed roedd mwy na hanner y newydd-ddyfo-

diaid i ysgol Waunfawr ym 1988 yn ddi-Gymraeg. O bosib mai'r un yw'r sefyllfa ym Mhenisarwaun. Yn annisgwyladwy o gofio adeiladu'r ystadegau ym mhentref Llanrug yn ddiweddar, mae'r ystadegau am y pentref yn ddadlenol i ryw raddau. Efallai bod mwy o Gymry Cymraeg yn symud i fyw i'r pentref nag i unrhyw un o'r pentrefi eraill yn yr ardal! Mae myfyrio uwchben yr ystadegau hyn yn creu poendod a dychryn i unrhyw un sy'n meddwl am ddyfodol yr iaith Gymraeg ac yn enwedig wrth sylu ar y manylion am Ysgol Dolbadarn, Llanberis.

Meddai Rol Williams, ar ôl archwilio i'r mynd a dod ym mhoblogaeth y Waunfawr a Betws Garmon yn ystod y deuddeng mlynedd diwethaf. A hithau'n Wyl ein nawddsant dyma erthygl y dylem i gyd ei hystyried yn ddwys iawn.

IAITH ETHOLWYR (18 oed) YR WAUNFAWR 1976-1987



WELE'R MANYLION AM YSGOLION Y FRO:

Ysgol	Nifer y plant	Nifer y plant o aelwydydd di-Gymraeg	Canran	Nifer y plant o'r newydd Medi 1988	Nifer o'r rhain yn ddi-Gymr aeg
Llanrug	222	53	23.0%	27	9
Bethel	152	43	28.0%	20	6
Llanberis	146	62	42.0%	24	12
Deiniolen	138	51	37.0%	22	9
Waunfawr	123	46	37.0%	20	11
Penisarwaun	58	17	30.0%	11	6
Cwmyglo	37	15	39.0%	4	2
Cyfanswm yr Ysgolion Cynradd	878	287	32.0%	128	55
YSGOL BRYNREFAIL	606	86	14.0%	75	15
Cyfanswm yr 8 ysgol	1482	373	25.0%	203	70

SYLWER: Cafwyd yr ystadegau am Ysgol Bethel o'r Swyddfa Addysg yng Nghaernarfon.

Ymddengys fod sylfeini un o bryderu yn wir sydd gennym am gadarnleoedd yr iaith Gymraeg yn ddyfodol yr iaith yn holl ddal-yr ardal hon yn y blynyddoedd a gylch Eco'r Wyddfa. fu yn awr yn bur sigledig a lle i

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

NANT PERIS

Gohebydd: Ann Fleming, 'Dolwen', 8 Nant Ffynnon (871457)

CYDYMDEIMLWN â Mrs Eileen Phillips a'r plant yn eu profedigaeth o golli gwr a thad, sef Mr Alun Phillips, Bro Elidir, Dinorwig. Roedd Alun yn enedigol o'r Nant. Bu'r angladd yn Nant Peris ar Chwefror 20fed. Mae ein cydymdeimlad hefyd â'i frawd, Mr Arfon Phillips, 9 Coed y Glyn, Llanberis.

LLONGYFARCHIADAU dwbwl i Llinos Haf, 10 Glanrafon ar lwyddo yn ei arholiad Piano Gradd V yn ogystal â'r arholiad ysgrifenedig Gradd V, y London College of Music yn ddiweddar. Mae'n ddisgybl i Mrs Linda Griffiths, LLCM, A Mus, LCM, Llanberis. Dal ati Linda.

LLONGYFARCHIADAU i Owen Tudur, Tan Bryn ar lwyddo yn ei arholiad gydag Ambiwllans Sant Ioan Llanberis. Mae Owen yn awr yn Gorporal. Da iawn Owen.

CROESO i Mr a Mrs Owain Griffith a'r plant i'r ardal. Maent wedi ymgartrefu yn 2 Bro Glyder, gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

DIOLCH: Hoffai teulu Llys Awel ddiolch i Bwyllgor Carnifal Nant Peris a Changen Plaid Cymru Llanberis am eu rhodd anrhydeddus o fwrdd snwcer i Alan. Diolch yn fawr iawn iddynt i gyd.

CYFARFOD CARNIFAL: Nos Fercher, Ionawr 19eg cynhaliwyd cyfarfod i drafod y carnifal am y flwyddyn yma. Gan nad oedd llawer yn bresennol penderfynwyd cael cyfarfod arall ymhellach ymlaen. Penderfynwyd fod peth o'r gronfa yn mynd i brynu bwrdd snwcer i Alan Pritchard, Llys Awel. Mae'n bleser cael dweud fod Alan yn berchennog ar fwrdd penigamp erbyn hyn.

CRONFA ALAN PRITCHARD: Cynhaliwyd cyfarfod yn Festri Rehoboth i sefydlu'r Gronfa uchod. Mae'r pwyllgor yn bwriadu cynnal cyngerdd yng Nghapel Rehoboth yn y dyfodol agos. Bydd mwy o wybodaeth yn y rhifyn nesaf. Dymuna'r pwyllgor ddiolch

o galon am y rhoddion sydd wedi dod i law erbyn hyn.

DIOLCH: Dymuna Ann, Glyn, Neil, Karen, Marina a Jim, Glyn Peris, Nant Peris ddiolch i'w ffrindiau a'u cymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad ac am y rhoddion a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar o golli mam a nain annwyl, Sylvia Harris. Cyflwynir y rhoddion er cof amdani i gyd i Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd, Bangor.

APÊL

I'R RHAI SY'N BENTHYCA'R CAMERA Bob mis bydd aelodau o wahanol gymdeithasau pentrefi'r fro yn benthyca camera'r "Eco" i gael lluniau o amrywiol weithgareddau a digwyddiadau. Yn anffodus, pan ddaw'r lluniau i ddwylo'r golygyddion ar ddiwrnod gosod, nid oes genym y syniad lleiaf yn aml "pw?" "ble?" na "beth?" yw'r llun. Gofynnwn yn garedig ar i chwi ysgrifennu MANYLION LLAWN am y lluniau i'r gohebydd pentref neu ni allwn eu cynnwys yn rhifynau'r papur.

Y Golygyddion

CYNGERDD
yng Nghapel Rehoboth
Nos Iau, Ebrill 6
am 7 o'r gloch
gyda Hogiau'r Wyddfa
ac eraill.

CABS LLANRUG



C'FON 5951

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos



ANTUR WAUNFAWR

I weled ein crôg fasgedi - a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

CANOLFAN ARDD ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu - a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

*** GRUG**
*** ALPAU**
*** PERTHI**
*** LLYSIAU**

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

DIOLCH: Dymuna Brian ac Eirlys Sharpe, Ael-y-Bryn, Bethel, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Arian ar yr 8fed o Chwefror.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Hugh Hughes, Cremlyn, ar ddathlu eu Priodas Aur ar 25ain Chwefror.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Chwefror 8fed cynhaliwyd cyfarfod misol yn yr ysgol yng nghwmni Mrs Ann Griffiths, Llanwnda yn sôn am hawliau'r unigolyn. Mae Mrs Griffiths yn weithgar iawn gyda'r Ganolfan Gynghori yng Nghaernarfon. Llywyddwyd y noson gan Mrs Glenys Griffiths, Llwyn Eithin, a diolchwyd i Mrs Griffiths am ei sgwrs gan Mrs Gwyneth Hughes, Cae Rhos.

Y gwestwragedd oedd Mrs Sheila Roberts, Mrs Meinir Roberts a Mrs Nora Parry. Enillwyd y raffl gan Mrs Meinir Roberts, Gwynfryn. Llongyfarchwyd Mrs Eirlys Sharpe a'i phriod Brian ar ddathlu eu Priodas Arian.

Ar Fawrth 8fed bydd yr aelodau yn mynd i Blas Tan-y-Bwlch, Penrhyndeudraeth i ddathlu Gwyl Ddewi; pris y bwyd fydd £3.85. Yn ddiweddarach yn y mis, ar Fawrth 14, byddant yn ymuno â changen Rhiwas. Dylid rhoi enwau i'r ysgrifennydd, Mrs Nora Parry, mor fuan ag y bo modd.

PWYLLGOR Y NEUADD: Dymuna'r pwyllgor ddatgan eu

diolch am y rhoddion canlynol a dderbyniwyd yn ddiweddar tuag at Gronfa'r Neuadd:

£55.50 gan Ferched y Wawr, Cangen Bethel;

£50.00 gan Gangen yr Urdd, Bethel;

£30.43 o gyfrif Côr Bethel a'r Cylch a beidiodd bod rai blynyddoedd yn ôl.

Yn ogystal mae gweithgareddau codi arian gan y Pwyllgor wedi bod yn bur llwyddiannus. Casglwyd dros £180 o ganlyniad i Yrfa Chwist Nadolig, y daith Sion Corn o amgylch y pentref a'r Disco hynod lwyddiannus a gynhaliwyd yn ddiweddar.

CLWB Y RHOS: Cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni Mr W J Eames, Llanwnda yn y cyfarfod diwethaf. Soniodd Mr Eames am ddechrau y diwydiant llechi yn yr ardal ac yn arbennig am y gwaahanol ffyrdd o gludo'r llechi o'r chwarel i'r porthladdoedd i'w hallforio.

Trefnwyd y noson gan Mr Merfyn Hughes, Twll Clawdd a diolchwyd i Mr Eames gan Mr Evan Owen, Wern Las. Llywyddwyd y noson gan yr Is-lywydd, Mr Ron Williams, Twll Clawdd.

Gobeithir gallu trefnu y cinio i ddiweddu'r tymor ar nos Sadwrn, Ebrill 1af.

Am wledd flasu
dewch at
Gwyndaf a Ceris
Williams

SIOP
SGLODION
BETHEL
CHIP SHOP

Archebwch
dros y ffôn!
Portdinorwig 670963
Cartref 670170

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Am wasanaeth fframio
cyflawn - LLUNIAU
TYSTYSGRIFAU,
TAPESTRI:-

ELWYN PRITCHARD
Fframiwr Lluniau/
Telynau Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS

870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch
cartref os dymunwch

Agor Ffiniau'r Gorffennol DATHLU GWYLIAU DEWI SANT 1903

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

I ddathlu Gwyl enwog Sant Dewi,
Y cyrchwn fel yma ynghyd,
Does gofwyl mor annwyl i'r Cymry.
Hon ydyw y bennaf i gyd,
Gwnaeth Dewi dros Dduw ryw wrhy-
dri
Am hyn y mae iddo fawr glod,
Ei waith yng Nghymanfa Llanddewi
A gofir tra'r nefoedd yn bod.

Cas gennym y dynion balch hynny
Sy'n mynnu darostwng ein gwlad,
A sarnu iaith annwyl y Cymry
Os gallant, bob amser dan dra'd:
Ond ni a gyd-ganwn yn llawen
Alawon ein gwlad ar bêr dant,
A gwisgwn oll werddlas geninen
Wrth ddathlu dydd Gwyl Dewi
Sant.

Cydgan:
Gwnawn bopeth sy'n nghyrraedd ein
gallu
Dros Gymru, ein cenedl a'n Duw,
A chofiw'n oll gadw Gwyl Dewi
A'r werddlas geninen yn fyw.

J A Parry
Llanafan

Dydd Gwyl y Cariadon
Beth am geisio cyfrif faint o
gusanau y mae'r beirdd yn ofyn
i'w cariadon yn yr hen englynion
canlynol? Cewch atebion ar y
diwedd.

1.
Mun lân! moes gusan, moes gant —
moes ddwsin

Moes ddeusaith bedwarcant;
Ddi-naca moes ddau nawcant,
Dri wyth mil dyro o'th mant.

2.
Moes gusan im rhan er hwy — moes
fil

Moes ddwyfil, moes ddeufwy,
Moes ugeinmil, moes ganmwy
Moes yma, am f'oes im fwy!

3.
Moes gusan am ei geisio — wen imi
Dan amod eu rhifo:
Fal hyn moes im fil heno
Aw'r grair, moes rifedi'r gro,

Y mae rhyw swyn neilltuol yn yr
hen benillion a ganai'r beirdd i'w
cariadon ers talwm:

Sian fwyn, Sian fain,
Sian gain, Sian gu,
Sian druan hynny heno!
Sian beraidd lais, Sian buredd lwys
Sian gymwys imi ymgomio;
Tro bo uchel heddiad brân,
Ni 'llyngai i Sian yn ango.

Rhys Cairi

Sian liwus, Sian lawen,
Sian eurbleth benfelen:
Sian dyner ei thonen
Sian irwen yw hon;
Sian imi yn gariad
Sian lana'n y teirgwlad,
Sian drwyadl, Sian doriad, Sian dirion.

Huw Morys

Rhywun fydd, a Rhywun eto!
Ac am Rywun rwy'n myfyrio:
Pan fwyf dryma'r nos yn cysgu
Fe ddaw Rhywun ac a'm deffry.

Os collais i fy nghariad lân,
Mae brân i frân yn rhywle:
Wrth ei bodd y bo hi byw
Ag wyllys Duw i minne!

Fe geir gyfoeth ond cynilo,
Fe geir tir ond talu amdano,
Fe geir glendid ond ymofyn:
Ni cheir mwynder ond gan Rhywun.

Gwyn fy myd pe bawn mor hapus
Yn y byd a chael fy newis,
Mi ddewiswn o flaen cyfoeth
Lendid pryd a chariad perffaith.

Atebion y syms ar y dechrau:
1. 31,513 o gusanau;
2. 47,101 o gusanau;
3. Rhif y cusanau — rhif y gro, ni
ellir eu cyfrif — hwn yw'r gorau.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen, Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU i Andrew
Williams, 2 Hen Gapel, ar ei briod-
das yn ddiweddar.

CYNGOR CYMUNED:

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn
y Waunfawr ar 21ain Chwefror
1989. Roedd Trysorydd Cyngor
Bwrdeisdref Arfon, Mr J D Roberts
yn bresennol i esbonio'r Dreth
Gymunedol newydd sy'n dod i rym
ym mis Ebrill 1990. Bydd ail-
gartrefi yn cael eu trethu fel y bo
dau berson yn trigo ynddynt. Yn
gyffredinol bydd 80% o aelwydydd
Arfon yn talu mwy. Y cam cynaf yn
y broses fydd i bawb dros 18 oed
gael eu cofrestru gan Gyngor
Arfon, eu mwyn cael sylfaen i'r
dreth.

Penderfynwyd cefnogi cais cynl-
unio i gael mynediad ar wahân i
'Tryfan' a gwella'r gyffordd a'r
briffordd. Rhoddwyd £25 i Theatr
Bara Caws; £50 i Eco'r Wyddfa a
£50 i Eisteddfod Genedlaethol
Llanrwst.

CLWB FFERMWYR IFANC CAERNARFON

CLWB FFERMWYR IEUAINC
CAERNARFON: Nos Fercher,
lonawr 11eg cynhaliwyd cyst-
adleuaeth Siarad Cyhoeddus
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr
Ieuainc Eryri yn Ysgol Eifion Wyn,
Porthmadog. Bu'r canlynol yn cyn-
rychioli'r clwb:

Dan 16 oed: Gwen Jones
Sioned Parry
Nia Jones

Dan 21 oed: Helen Jane Jones
Eurwyn Jones
Aled Jones
Rhian Thomas

Ein gwestai yn y clwb ar y 31ain
o lonawr oedd Mr Arthur
Rowlands, Caernarfon. Sgwrsiodd
am ei fywyd dros y deng mlynedd
ar hugain diwethaf. Gadawodd
argraff ddofn arnom i gyd. Yn dilyn
y noson yma cyflwynwyd rhodd
gan y clwb o £10 i Gymdeithas y
Deillion Gogledd Cymru.

Canolfan Hamdden Arfon oedd
cyrchfan nifer o aelodau clybiau'r
Sir ar yr 2il o Chwefror.
Cynhaliwyd yno gystadleuthau
Tenis Bwrdd a Badminton rhwng y
clybiau.

I gwblhau'r cystadlaethau dan-do
bu ymryson rhwng y clybiau ar y
byrddau Pwl a Dartiau yng nghlwb



Rygbi Pwllheli ar yr 8fed o
Chwefror.

Gwahoddwyd aelodau hyn y
clwb i ymuno â chlwb Dyffryn
Nantlle mewn noson gymdeithasol
yng Ngwesty Tyddyn Llwyn,
Porthmadog ar y 10fed o
Chwefror.

Treuliwyd nos Fawrth 14eg o
Chwefror ar y llethrau sgïo ym
Mhlas y Brenin, Capel Curig. Aeth
20 o aelodau'r clwb yno a daeth yr
ugain yn ôl yn ddi-anaf hefyd.

Dyddiadau arbennig yn y mis
nesaf:

24.2.89: Rhagbrofion Eisteddfod y
Clybiau yn Ysbyty Ifan;

28.2: Aelodau Clwb Caernarfon yn
ymweld â Gorsaf Ambiwllans
Caernarfon;

4.3: Eisteddfod Clybiau Eryri yn
Neuadd y Dref, Pwllheli am 5.30;

10.3: Cinio Blynyddol y Sir.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

DIOLCH; Dymuna Miss A M
Williams, Llys Arfon, ddiolch yn
gynnes iawn i berthnasau, cyfeil-
lion a staff Ysbyty Gwynedd,
Bangor am bob cymorth a
charedigrwydd a dderbyniodd yn
ystod ei gwaeledd diweddar.
Dymunwn oll adferiad llwyr a buan
iddi.

SEFYDLIAD Y MERCHED:
Cyfarfu'r gangen nos Lun,
Chwefror 20fed yn y Festri dan
lywyddiaeth Mrs Pat Jones.
Trefnwyd y noson gan Mrs Rhian
Jones ar ffurf Scrabl Gyfeillgar. Yr
enillwyr oedd Mrs Betty Owen a
Mrs Eirlys Williams a byddant yn
cynrychioli'r gangen mewn

gornest ym Morfa Nefyn ar Fawrth
20fed.

Oherwydd y cyfarfod arbennig
hwnnw, bydd cyfarfyddiad nesaf y
Sefydliad nos Lun, Mawrth 13eg
pryd y cynhelir noson o wau nod-
dedig ar gyfer codi arian i
Ffederasiwn Caernarfon,
Gwynedd o Sefydliad y Merched.

Cydymdeimlwyd yn ystod y
cyfarfod â theulu Mrs Agnes
Salter, Llywydd Anrhydeddus
Ffederasiwn Genedlaethol
Sefydliad y Merched yn eu
profedigaeth. Gwnaed y lluniaeth
gan Mrs Euronwy Roberts a Mrs
Eirlys Williams ac enillwyd anrheg
y mis, rhoddedig gan Mrs Mai
Parry, gan Mrs Jennie Hughes.

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

FFÔN:
LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

Bistro

43-45 STRYD

FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 871781



CURIAD CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd

Bistro Bach

Y MAES

CAERNARFON

Ffôn: 3075



CURIAD CALON CYMRU

GENWEIRIO

Y Gwalch

Roeddwn i wedi dychmygu mai Huws fyddai'r dwaetha i fynd ar ofyn 'matrimonial agency' a fynta tros ei ddeugain ac yn dechrau britho, a faswn i ddim wedi coelio chwaith onibai mai gan y dyn ei hun y cefais i'r wybodaeth.

Mae Huws yn cael yr enw o fod yn ddyn merched, er cofiwch erbyn heddiw does raid i chi ddim ond cario bag negas rhyw hen siortan tros ei phedwar ugain i wneud sôn amdanoch. Mi ddylwn i fod yn gwybod.

Roedd y siop gymharu yma ddyliwn yn cael ei rhedag gan rhyw ddynas ganol oed, a phan aeth Huws yno roedd hi'n fêl i gyd, ac ymhen dim roedd hi wedi mynd i'w fasgiad o ac wedi ei gael o i ddadlennu y petha mwya personol amdano ei hun. Wedyn dyma hi'n tynnu allan doman o ffeils am y merchad oedd ar ei llyfra hi, ac ar ôl treulio awr galad yn eu stydio nhw, roedd Huws o'r farn mai aros ar y llyfra y basa nhw — hynny ydy — ag eithrio rhyw ferch wallt gola, yn ôl ei llun, a oedd yn amlwg wedi ei dynnu mewn haul tramor. Beth bynnag, ar ôl rhedag drwy ei ffarticlars hi ac ail edrych ar y llun, dyma Huws yn penderfynu sythu amdani, ac mi roddodd ei enw i lawr fel tasa fo'n arwyddo deiseb, ac ymhen yr wythnos roedd o wedi cael gair o'r siop gymharu yn gofyn iddo fynd yno wedyn, ac yr oedd o'n gynnwrf i gyd gan feddwl y basa'r ferch yno yn ei ddisgwyl o. Ond nid felly y bu. Roedd yr hogan ddyliwn o natur mwy rhamantus; roedd hi'n deisyfu cyfarfod Huws ar y prom y nos Sadwrn ganlynol. Roedd hi am osod ei hun ar y sedd gyntaf ger y piar mewn gwisg las symudliw tua saith o'r gloch, a phan ofynnodd dynas y siop i Huws beth oedd o yn fwriadu roi amdano, doedd o ddim yn siwr, ond awgrymodd hi y dyla fo beth bynnag gario bwnsiad o flodau.

Roedd Huws yn nyrfu i gyd ar hyd yr wythnos yn trio y gôt yma a'r trowsus arall, ac yn rhodresu o flaen y drych fel ceiliog gêm a'i fryd ar sathru cwan. Ond beth bynnag ydy Huws — dydy o ddim yn huplun chwaith. Roedd o wedi gwneud yn siwr na fasa fo'n cael sachad. Roedd o am fynd heibio'r piar unwaith neu ddwy yn ei gar cyn traddodi ei hun, i gael cip ar yr hogan. Wedi'r cwbl pwy oedd i ddweud nad llun wedi ei dynnu rhyw ugain mlynedd ynghynt welodd o yn y siop.

Ond pan ddaeth yr awr canfu Huws nad oedd yna neb ar gyfyl y fainc, ac ar ôl disgwyl am rhyw hanner awr aeth yno ei hun i eistedd hefo'i flodau, ac ar hynny dyma rhyw gar yn stopio gyferbyn, a phwy ddaeth ohono fo yn llawn ei thrafferth ond dynas y siop gymharu ei hun.

"O Mr Huws bach," meddai. "Mi fethis yn glir a chael gafael arnoch chi ar y ffôn. Mae gen i siomiant i chi mae arna i ofn."

"Be' sy?" gofynnodd Huws er fod ganddo amcan ddifai.

Eisteddodd y ddynas ar y fainc

ac eglurodd mewn byr eiriau. Roedd yr hogan wallt golau wedi ffonio y munud dwaetha i ddweud fod ei mam hi wedi ei tharo yn wael yn y Sowth, ac fod raid iddi fynd at ei hochr hi ar unwaith, ac yno roedd hi'n bwriadu aros nes y basa'r hen wraig yn troi ar fendio neu benderfynu mynd y ffordd arall. Roedd hi'n anfon ei hymddiheuriadau llwyraf i Huws, ac yn pwysleisio arno beidio a gwrthod unrhyw gynnig a fasa fo'n gael yn y cyfamser. Fuasai hi'n mynnu ar dim ddifetha ei fywyd.

Ar ôl clywed hynny i gyd cafodd dynas y siop draffarth i ddarbwylllo Huws rhag neidio i'w gar a'i goleuo hi am y Sowth. Ond tawelodd mewn ysbaid a rheddodd ei feddwl at bethau mwy ymarferol fel y bwrdd hwnnw roedd o wedi ei fwcio i ddau yn y Metropole erbyn wyth — a'r bloda. Mi fasa yn helynt i bob dim fynd yn wastraff.

Roedd y feddyginiaeth wrth gwrs yn amlwg wrth law. Doedd angen fawr o berswâd ar gydymaith Huws erbyn hynny i rannu'r bwrdd yn y Metropole, a mawr oedd ei chyfaredd pan ofynnodd Huws i un o'r gwasanaethyddion roi'r blodau mewn dwr a'u gosod mewn man amlwg, ac wedi'r gwledda a'r gwin llaciodd tafodau ac ymdoddodd delweddu a daeth cynnwys eneidiau yn fwy-fwy i'r wyneb.

Deallodd Huws fod y ddynas yn ysgaredig ei hun, er na wyddai hi ddim p'run ai caffaeliad ynteu llestair i'r busnes oedd y ffaith honno. Beth bynnag, y peth nesa roedd Huws wedi ei gwahodd hi i'w fflat hen lanc ymhen draw'r dre i weld llun côr y gwaith a gafodd ei dynnu pan oeddent ar wibdaith yn yr Unol Daleithiau, a mawrhaodd hithau fwy arni ei hun yn ei olwg drwy ei adnabod ar unwaith ymysg yr hanner can aelod arall. Ac yr oedd yr hogan wallt golau wedi ei llwyr anghofio.

Ac ymhen rhyw ddeufis — i dorri hen ramant diflas yn fyr — roedd Huws a'r ddynas yn wr a gwraig. Priodas swanc ofnadwy oedd hi hefyd yn ôl y lluniau. Hi yn ei gwyn i gyd fel tasa hi newydd syrthio o fro'r Ceriwbaid, ac ymysg y gwesteion, yn ôl Huws, roedd yna amryw o gyplau a ddaeth at ei gilydd drwy gyfrwng y siop gymharu.

Gadawodd Huws ei waith a fforffetio pensiwn er mwyn rhoi

ei lawn amser i gynorthwyo ei wraig i redag y siop gymharu, ac yr oedd pethau yn yr ardd chweddal pobl, yn hynod o addawol, ond yn ddiarwybod i Huws roedd y lindis fel petae yn barod wedi dodwy yn y bresych.

Roedd o wedi bod yn fyr o ddweud wrth ei wraig cyn priodi, a hynny drwy fwriad neu fympwy, ei fod yn hoff o fynd allan ar y Sul i bysgota mecryll o'r piar ar yr ager long Gwylan y Gwynt. Ac erbyn deall, doedd yna ddim a gasai Musus Huws yn fwy nag ogla penwaig. Doedd wiw i Huws ddwad â'i ddalfa adra 'run fath a dynion eraill, ac yr oedd yn gorfod tynnu ei ddillad penwaig yn y sied yng ngwaelod yr ardd cyn dwad yn agos at y ty, ond fasa hynny ynddo ei hun efalla ddim wedi achosi'r rhwygiad; ond yn sicr roedd o'n gyfraniad.

Roedd Huws yn y siop ei hun rhyw ddiwrnod pan ddaeth hogan dal wallt gola i mewn. Roedd ei henw hi wedi bod ar y llyfra yn ddiflas o hir meddai hi, a phan gafodd Huws hyd i'w ffeil hi, canfyddodd mewn mawr syndod mai hi oedd yr union ferch a ddylai fod wedi dwad ar y prom, a fedra fo ddim llai na gofyn iddi sut oedd ei mam, allan o gwrteisi pur.

"Mam?" meddai hithau. "Mi fuo farw pan oeddwn i'n blentyn."

Os y synwyd Huws chymerodd o arno ddim ac aeth ymlaen i drafod ei hachos, ond torrodd hi ar ei draws drwy ddeud ei bod yn meddwl y dylai fod wedi ychwanegu un ffaith arall at fanylion ei ffeil.

"Wnes i ddim meddwl ar y pryd," meddai hi, "gan ei fod yn ddiddordeb dipyn yn amheuthun i ferch."

"O", medda Huws yn reit grwn.

"Rwy'n hoffi pysgota wyddoch chi," medda hithau.

Roedd Huws wedi ei gyfareddu, a phlymiodd y ddau i sgwrs ddofn am enweiriau a bachau a phlu.

"Ond fuo fi erioed yn pysgota yn y môr," medda hi wedyn.

Matar bach oedd i Huws ei gwahodd wedyn ar Wylan y Gwynt ar y Sul canlynol, ac fe ddaeth, am ddau a thri a phedwar tro, ac yr oedd hi yn bachu helfa. Ac yn fuan iawn yr oedd Huws yn treulio llawar o amser yn ei chwmni ar dir sych hefyd, a phan ddaeth y ffaith honno o'r diwadd i sylw Musus Huws, 'ffromodd' ys dywed y Mabinogion, 'yn aruthr', a rhoddodd hanner bora o rybudd i Huws fynd o'i bywyd a'i thy, a mynd a'i ddillad penwaig i'w ganlyn o'r sied.

Ond doedd o ddim ar y clwt. Aeth i drigo at yr hogan wallt gola yn ei fflat hen ferch ymhen draw'r dre, ac aeth popeth yn ei flaen yn ddedwydd ddigon, hynny ydy, nes y canfyddodd Huws nad oedd y ferch newydd wedi cofio rhoi un peth arall yn ei ffeil. Roedd hi'n casau corau meibion. Ond roedd Huws yn benderfynol

o beidio rhoi gorau i un o'i brif ddiddordebau er ei fod wedi colli practis neu ddau yn barod. Wedi'r cwbl, roedd y côr yn mynd i Rwsia y flwyddyn honno.

O ganlyniad i'r anghydfod yma, roedd y ferch wallt gola yn mynd allan ar y cwch ganol yr wythnos hefyd, a phan ddaeth hi ddim yn ei hôl un noson, cofiodd Huws yn sydyn fod perchennog y cwch wedi bod yn hysbysebu yn y wasg leol am fêt, neu fêtes (rhag tramgwyddo'r awdurdodau cydraddoldeb), a phrofwyd ei amheuan gwaethaf pan ddarganfuwyd fod Gwylan y Gwynt wedi gadael ei hangorfa ger y piar.

"Dy hun wyt ti rwan felly?" medda fi.

"O naci. Mi rydw i wedi taro ar rhyw hogan arall," medda Huws. "Yr iawn un y tro yma."

"Lle cest ti afael ar hon? Yn y siop gymharu?"

"Wel ia — a naci." Ac eglurdd.

Roedd o'n mynd heibio i'r lle yn ei gar pan ruthrodd rhyw hogan allan ar andros o sgri ac yn union i'w lwybr. Tarawyd hi i lawr, ond erbyn i Huws fynd ati, doedd yna fawr o helynt arni; wedi dychryn a sgriffio mymryn ar ei phen-glin. Chwipiodd Huws ei hancas am y briw ac aeth a hi adra i gael bandej go iawn, ac ar ôl iddi gael panad, cymerodd ei pherswadio i ddwad yn ei hôl trannoeth i newid y bandej rhag ofn i'r briw droi yn septic, ac yn ei hôl y daeth hi'n ddyddiol ddyliwn nes iddo fo groeni.

"Ac acw mae hi," medda Huws.

Ond doedd gen i ddim o'r nyrf i ofyn iddo fo oedd hi'n chwanog i fecryll a chorau meibion.

RHAMANT

Bydd llyfr o straeon adgofiannol gan John Williams yn ymddangos y mis nesaf, o dan y tetil *Clouds of Time and Other Stories*, gyda darluniau o rai o aelodau o'i deulu, a rhagymadrodd gan Meredith Edwards.

Mae'r llyfr hefyd yn cynnwys rhamant am ddyddiau cynnar ei rieni ar lawr y plwyf, a'r modd y darfu iddynt lochesu ffoadur o'r ffosydd yn Rhyfel Mawr 1914-18.

Y Cyhoeddwr yw Gwasg Carreg Gwalch, a'r pris £3.50

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Yn ystod y mis bach yr wyf yn casglu'r newyddion at ei gilydd ac yn meddwl yn ddwys am y corwyntoedd a gawsom y mis diwethaf, ac hefyd am ran o'r mis hwn. Chwyrnellai'r gwynt yn y simdde, ac er i'r hinsawdd fod yn dyner, eto mae swm y gwynt yn gyrru oerfel i lawr ein meingefn. Gyda "lliw" yr eira i'w weld ar y mynyddoedd cyfagos, fe'n atgoffir nad yw'r gaeaf drosodd eto tra'n bod ninnau'n meddwl mor wanwynol neu hafaidd ydyw. Dywaid hen ddywediad "Chwefror chwyth neidr oddi ar ei nyth."

Y GYMDEITHAS: Bellach mae tymor y Gymdeithas Ddiwylliannol Undebol yn brysur ddirwyn i ben. Er i ni eisoes gael noson yn rhan gyntaf y tymor i ddadlennu peth o hanes bywyd ym Mhatagonia, fe ddaeth Miss Catherine Williams, Porthaethwy ar Chwefror 2il, a'n gwahodd i ystyried mwy o hanes y Wladfa. A hithau wedi bod ym Mhatagonia ei hun roedd hi'n cyfwrdd â rhai agweddau o fywyd y wlad bell honno na chlywsom mohonynt o'r blaen, ac fe soniai am Esquel a Threlew. Fe'n cymhellwyd i ystyried arwriaeth a mentr yr ymsefydlwyr cyntaf o Gymru, ac fel y daethant yng nghwrs amser i gydifyw â'r Sbaenwyr a mabwysiadu i raddau helaeth iaith Sbaen a Phortiwgal. Roedd wedi bwriadu defnyddio sleidiau ond fe ganfu nad oedd lamp y projector yn gweithio. Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian oedd yn llywyddu a chyflwyno'r siaradwraig.

Ar Chwefror 16, Mr Robert Parry o Gaernarfon, ond yn enedigol o Gwm-y-Glo oedd yn trafod ei brofiadau ledled byd tra'n gwasanaethu yn yr Awyrlu. Clywsom ganddo iddo dreulio sbel o'r amser yn canu mewn cyngherddau a nosweithiau llawen yng nghwmni Cymry eraill o Dde a Gogledd Cymru. Roedd ei sylwadau yntau yn gyfuriog o hiwmor. Y tro yma Mrs Beti Peris Roberts, 11 Maes Eilian oedd yn llywyddu y noson.

Fe fuom yn ffodus iawn gyda'r

tywydd ar hyd y tymor ac roedd hynny'n gwarantu cynulladau lled dda. Pwl o afiechyd yn unig oedd yn lluddias rhai i fod yn bresennol.

MARWOLAETH: Derbyniwyd y newydd trist yn ddiweddar am farw ar Ionawr 16eg, un a anwyd ac a fagwyd ym Mryn Sardis, sef Mrs Annie Jones, Florida, U.D.A., a hithau wedi cyrraedd ei 94 oed. Chwaer ydoedd i Mrs Katie Lewis, gynt o Faes Gwylfa, Deiniolen, ond sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bryn Seiont Caernarfon. Yr oedd Mrs Jones yn briod â'r diweddar Mr John Foulk Jones, Fron Heulog, un a fu'n athro yn Ysgol Dinorwig am gyfnod. Wedi iddo ymfudo i'r Amerig fe'i penodwyd yn olygydd 'Y Drych', sef papur newydd y Cymry a ymsefydlodd yno. Yr oedd iddynt ddau o blant. Ymgartrefodd y fam gyda'i merch Sally ym mlynnyddoedd olaf ei hoes. Pan ymunodd Mrs Annie Jones â'i phriod yn yr Amerig yn 1915 fe hwyliodd yno ar y llong 'Lusitania' a suddwyd gan long danfor o lynges yr Almaen ar ei thaith yn ôl i Brydain. Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Lewis a'r teulu yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Nell Thomas, Buarth Newydd ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl garedigrwydd a'r dymuniadau da a gafodd tra yn derbyn llaw driniaeth yn yr ysbyty, ac ar ôl dod adre. Diolch hefyd i holl feddygon a gweinyddesau 'Ward Glaslyn' am eu gofal cariadus.

GWAELEDD: Fe ofidiwn glywed am afiechyd Mrs Naomi Davies, Bryn Coch.

MARWOLAETH: Gyda gofid hefyd y cofnodwn farwolaeth Mr Alun Phillips, a fu'n byw yn 6 Maes Eilian, ond a oedd y dyddiau diwethaf gyda'i ferch yn Mro Elidir. Roedd ei frawd, y diweddar Barch Ifor Phillips yn offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru. Cof gennyf hefyd am ei ewythr, Mr Robin Phillips o Gwm-y-Glo yn llythyr-gludydd (postmon) yn yr ardal hon nifer o flynyddoedd ynôl. Bu angladd Alun Phillips ddydd Llun, Chwefror 20 gyda gwasanaeth yn

Eglwys St Mair a'r claddu yn Nant Peris.

Chwith i nifer o'i gyfeillion oedd clywed am farwolaeth Mr Walter Tremelyn (Terry) Sharpe, yn Llundain yn ddiweddar. Fe gollodd Alwyn Sharpe, ei frawd, ei fywyd mewn damwain mewn cysylltiad â'r Llu Awyr nifer o flynyddoedd yn ôl bellach. Mae'n syn fel y daw atgofion i ni ar achlysur fel hyn. Pan oeddwn yn yr hen Ysgol Sir

Brynrefail, fe arferai Mr Sharpe, y tad, ddanfôn newyddiaduron o Gwm-y-Glo i nifer o dai ym Mrynrefail, ac fe'i cofiaf yn dod ar ei feic, a hynny'n gyson y naill ddydd ar ôl y llall.

Os caniatâ gofod rwyf yn disgwyl dechrau cyfres o ysgrifau am hen gymeriadau diddorol ardal Dinorwig yn y rhifynau nesaf o Eco'r Wyddfa.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Bethan Parry, "Ael-y-Bryn"

PROFEDIGAETH: Trist iawn oeddem o glywed am farwolaeth John Humphreys, Caer Maen yn ei gartref ddydd Llun, Chwefror 6.

Bu'n dioddef yn wrol ers rhai misoedd ac eto roedd bob amser yn siriol. Yn ystod ei waeledd cafodd ofal tyner a charedig gan ei briod, Mrs Katie Humphreys, ac estynnwn ein cydymdeimlad difuant iawn â hi ac â'i fab, y Dr David J Humphreys yn eu profedigaeth.

Bu'r angladd ym mynwent Eglwys Sant Mihangel, Llanrug ddydd Gwener, Chwefror 10 gyda'r Parchedig W O Roberts yn

gwasanaethu.

GWELLHAD: Dymunwn wellhad buan i Mrs J M Griffiths, Llys Meredydd, sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

Da gennym glywed fod Michelle, mab Mr a Mrs Blanchard, Pant y Coed gartref o'r ysbyty ar ôl triniaeth law-feddygol.

LLONGYFARCHIADAU i Alwena Roberts, 1 Tai Minffordd ar gyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Chwefror 17.

CROESO adref i Mr Ben Birch, 8 Tai Bryngwyn ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn cael triniaeth lwyddiannus i'w lygaid.

CYMDEITHAS WYDDONOL GWYNEDD PA Ffordd?

Y ffactorau sy'n cael eu hystyried tra'n dewis y llwybr "gorau" i ffordd osgoi oedd y pwnc dan sylw yn narlith ddiweddaraf Cymdeithas Wyddonol Gwynedd ar nos Fawrth, Chwefror 7. Y siaradwr oedd Mr H Llew Williams, Prif Beiriannydd, Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Gwynedd.

Gan fod adeiladu unrhyw ffordd osgoi yn sicr o effeithio yn wahanol ar wahanol garfanau o'r gymdeithas rhaid ceisio pwyso a mesur yr effeithiau hyn — ar bobl, ar yr amgylchfyd ac yn y blaen mewn dull di-duedd a gwrthrychol. Clywsom bod hyn yn cael ei wneud drwy weithredu oddi fewn i fframwaith benodol fel bod pob un o'r dewis lwybrau yn cael ei asesu yn yr un modd.

Er mai mater cymharol hawdd



yw amcangyfrif cost adeiladu, mater arall yw asesu gwerth y ffordd newydd hyd yn oed pan mae rhywun yn ceisio gwneud hyn mewn dull cymharol ac nid drwy chwilio am ateb absoliwt.

Dewisodd Mr Williams ganolbwyntio ei sylwadau ar rai agweddau yn unig oddi fewn i'r fframwaith — sef yr ochr economaidd a phroblemau traffig gan mai y rhain sydd yn cael eu trin a'u trafod mewn modd wyddonol/fathemategol.

Disgrifiwyd sut yr eir ati i fodelu traffig ac amcangyfrif costau teithio ar hyd y ffordd a thrwy y cyffyrdd yn ogystal â chostau damweiniau ar y rhwydwaith. Tynnwyd ein sylw at y problemau sy'n codi oherwydd y newidiadau mewn dwysedd traffig yn ystod y dydd neu'r flwyddyn — yn ogystal ac o flwyddyn i flwyddyn.

Er wacthaf yr anhawsterau a'r ansicrwydd sydd yn gysylltiedig â systemau asesu o'r fath, pwysleisiwyd mor bwysig yw gwella'r dulliau o asesu a'n dealltwriaeth ohonynt. Y nod yw sicrhau bod y dewisiadau cywir yn cael eu gwneud a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario yn y ffordd orau bosibl er budd cymdeithas.

Hon oedd darlith olaf y tymor. Cawn orffen gyda Noson Gymdeithasol ym Mhlas Menai fis Mawrth a thrip i bwerdy Dinorwig fis Ebrill.

Gwasanaeth Llogi Cerbydau

**SEGONTIUM
CAR . VANHIRE**

Cerbydau Pickup, Luton Cargo
a Bysus Mini

Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir

**MODURDY LLEIOD,
CAERNARFON Ffôn: 2013**

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL**

**GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr:

£40: Mrs Kathleen Tame, Swyn y Dail;

£25: Hilda Bradshaw, Castle View;

£10: Dr A.L. Miles, Trefeddyg.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Dathlodd aelodau'r Sefydliad y flwyddyn newydd mewn cyfarfod yng Ngwesty y Saracen's Head, Beddgelert nos Iau, Ionawr 4, pryd y mwynhawyd cinio ardderchog.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Ganolfan nos Iau, Ionawr 26ain. Y gwr gwadd oedd y Parch Harri Parri, Caernarfon, a chafwyd anerchiad difyr dros ben ganddo ar 'Hiwmor'. Roedd ef yn sicr nad yw pob person yn gwerthfawrogi yr un fath o hiwmor. Diolchwyd iddo gan Mrs Cadi Jones. Roedd pawb yn falch o glywed fod Mrs Slaven yn gwella, a chosawyd Catherine Hughes ar ôl ei gwaeledd.

Croesawyd dwy aelod newydd, Mrs Rhian Jones, Tref Eilian a Mrs Janet Smith, Rhoslan. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Fwyneth Griffith a'r enillydd oedd Mrs Joy Glyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, Chwefror 23, pryd y ceir swper ac adloniant i ddathlu Gwyl Dewi.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR A CHAEATHRO: Yn eu cyfarfod penderfynodd y cyngor i ganiatau'r cais i newid oriau syrjyri meddygfa Waunfawr o 5.0-6.30 i'r amser newydd o 4.30-6.30. Mae hyn yn unol â'r patrwm mewn nifer o ardaloedd eraill.

Penderfynodd y cyngor hefyd i gytuno gyda'r drefn o dalu am weld ceisiadau cynllunio a fydd yn effeithio ar yr ardal. Mae hyn yn unol â gorchmynion newydd gan y llywodraeth gyda cheisiadau o'r fath.

Gofynnodd y cyngor i'r heddlu lleol gadw llygaid ar gyflymdra annerbyniol rhai ceir a cherbydau sy'n gyrru ar hyd y briffordd drwy'r pentref.

Byddai'r cyngor hefyd yn falch o glywed oddi wrth unrhyw un o

blaid neu yn erbyn y bwriad o godi cysgodfan fysiau o dan y coed ger stad Bodhyfryd.

Yn dilyn ymadawiad y Cyng Bob Eaglestone i Rosgadfan, mae'r cyngor wedi penderfynu gwahodd Mr Dewi Jones, Dolcoed i ymuno â'r cyngor. Mae Mr Jones yn garedig iawn wedi derbyn y gwahoddiad.

Yng Nghaeathro penderfynwyd gofyn i'r heddlu unwaith yn rhagor i gadw llygaid ar y parcio peryglus ger y gyffordd sy'n cysylltu'r pentref â'r briffordd o Gaernarfon.

CLWB GWYRFAL: Ionawr 19: Mrs Charlotte Davies, genedigol o'r America oedd yn ymweld â'r Clwb. Bu Mrs Davies yn ddarlithydd mewn prifysgol yn Ne Carolina cyn dod i Aberystwyth ar gwsr PhD. Tra yno cymerodd gymaint o ddiddordeb yng Nghymru nes penderfynodd ddysgu'r iaith ac erbyn hyn mae yn ei siarad yn rhugl. Cawsom sgwrs ddiddorol am ei gyrfa yn America ac ar ôl priodi â gohebydd S4C, Mr Hywel Davies, a dod i Ros-Isa i fyw. Diolchwyd yn gynnes iddi ac i aelodau Antur Waunfawr.

Chwefror 2: Cyfarfu y Clwb yn y Ganolfan ac yn falch iawn o gael ein llywydd, y Canon Barry Thomas fel gwestai ac am ddangos inni luniau a rhoi sgwrs ar ei anturiaethau yn sgïo pan yn ymweld ag Awstria, yr Eidal a'r Almaen.

Diolchwyd i Mr Thomas gan Mr Griffith, Llys Helen. Mrs Jones-Evans enillodd y raffl, sef rhodd Mrs Parry Williams. Datganwyd ein cydymdeimlad â Mrs Mottram ar farwolaeth ei mam yng Nghaernarfon, hefyd â Miss Owilda Williams ar golli ei chwaer, Mrs Ross, oedd yn byw yn y Fronllwyd gyda Miss Williams.

Chwefror 16: Pleser oedd croesawu Mrs Peter Marsden i'r Clwb. Ers yn cartrefu yn y Waun mae wedi hyfforddi llu o ieuencid y cylch mewn cerddoriaeth a phob amser yn barod ei chymwynas.

Yn ddiweddar bu'r teulu ar wyliau yn India ac ynysoedd y Maldive a

chawsom weld lluniau o adeiladau o bensaerniaeth gwyh gyda'r cyferbyniad o bentrefi cyntefig. Diolchodd Mrs Nesfield am sgwrs mor addysgiadol.

Croesawyd Mrs Parry Williams a Mrs Owen, Tref Eilian ar ôl eu gwaeledd. Hefyd Mr a Mrs Overy a Mrs Jones, Eryri Wen. Anfonwyd dymuniadau am wellhad buan i Mrs Williams (Tanyffordd gynt) a Mrs Jones, Tref Eilian. Enillwyd y raffl, rhodd Mrs Griffiths, Caeau Gwynion, gan Miss O Williams.

Bydd y cyfarfod ar Fawrth 2il i ddathlu Gwyl Dewi yn yr ysgol.

YR URDD: Ar nos Fercher, Chwefror 1af, mwynhawyd nifer o gemau amrywiol gan yr aelodau. Noson ddiddorol ar 'Fynydd' yng nghwmni Mr Aled Taylor a gafwyd ar Chwefror 8 a'r un mor ddiddorol oedd 'Dringo Everest' yng nghwmni Mr Sam Roberts ar Chwefror 22.

Cofiwch am ymweliad yr Urdd â'r Orsaf Dân yng Nghaernarfon ar Fawrth 8. Trefnir bws i gychwyn o Whiteways' am 6 o'r gloch, a'r pris fydd 30c.

Pob lwc i'r aelodau sy'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd ar Fawrth 3.


APÊL EISTEDDFOD YR URDD 1990: Gweithgaredd dowethaf y cyllgor oedd cyngerdd yn y Ganolfan ar Fawrth 1af. Yn ystod wythnos yr Wyl Gyhoeddi ddiwedd Ebrill gobeithir cael stondin Tombola yng Nglynllifon. Buasem yn ddiolchgar pe bai aelodau'r Urdd yn dod a nwyddau o unrhyw fath i'w rhoi ar y stondin i'r Ganolfan nos Fercher, Mawrth 8fed, cyn ini ymweld â'r Orsaf Dân. Mae croeso i unrhyw un gyfrannu tuag at y stondin a derbynnir y nwyddau yn ddiolchgar gan Irene Roberts, Pant Teg neu Beryl Jones, Dol-y-Coed.

YSGOL WAUNFAWR yn ystod y 30'au

Derbynwyd trwy law Mr Dafydd Hughes, 12 Trem Eilian, Brynrefail.



FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

GRADD ALLANOL Prifysgol Cymru

Mae Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn cynnig cynllun i oedolion sy'n dymuno dilyn cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r Coleg. Gellir astudio'r pynciau a ganlyn: Cymraeg, Hanes Cymru, Drama, Addysg, Cerddoriaeth, Llydaweg, Astudiaethau Crefydd.

Ai hwn yw'r cyfle y buoch yn disgwyl amdano?

Os carech dderbyn rhagor o fanylion ynglŷn â'r cynllun, a ffurflen gais, cysylltwch â:

A. Cynfael Lake, Swyddog y Radd Allanol, CPC Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth (Ffôn 0970-611909).

Gwahoddir ceisiadau gan ddarpar-fytywyr erbyn dechrau mis Ebrill.



APÊL EISTEDDFOD YR URDD (Parhad)

Ar Fehefin 17 cynhelir Swper Awyr Agored ar gae'r Ganolfan.

Bydd y pwyllgor nesaf nos Fercher, Ebrill 5ed am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan.

LLONGYFARCHIADAU i Heather Jones, Bryn Menai ar gyrraedd ei phen-blwydd yn un ar hugain oed; i Sian Rowlands, Ty'n Coed ar gyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed;

- i Shirley a Chris Roberts, Bryn Golau ar enedigaeth merch fach, chwaer i Wayne, Julie a Kelly, ac i Mr a Mrs Hanks, Tref Eilian ar ddod yn nain a thaid unwaith eto;

- i Mrs Jones, Eryri Wen ar ddod yn nain eto, ganwyd mab, Dafydd Wyn, i'w mab Gerallt a'i wraig Sian, yn y Groeslon;

- i Mrs Hughes Roberts, Dol Erddi ar ddod yn hen nain, ganwyd mab i'w wyres Gwenda a'i gwr. Anfonwn ein cofion at Mrs Roberts sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd;

- i Meira Truner, Collfryn ar fod yn llwyddiannus yn Eisteddfodau Trawsfynydd a Garndolbenmaen;

- i Alun ac Wmffra ar ddod i'r brig yn y gystadleuaeth ddeuawd ac i Wmffra ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth cân werin yn Eisteddfod Abergynolwyn;

- i Ella Wyn, Graianfryn ac Osian Gwynedd, Nant, ar lwyddo yn eu arholiadau theori cerddoriaeth;

- ac i ddisgyblion Ysgol Syr Huw Owen fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr ysgol.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion at Mr Glyn Williams, Plas Glyn Afon; Mr H Westphall, Tref Eilian a Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eifion sydd yn yr ysbyty.

ADREF O'R YSBYTY: Da deall fod Mrs Sylvia Jones, Pen-y-Graig; Mrs Lloyd Williams, Bryn Meredydd; Miss Catherine Hughes, Dolafon; Mr David Jones, Lynfod; Mr Kevin Roberts, Swn-y-Gwynt; Mr John Delwyn Lewis, Bryn Golau a Mr Dean Clark, Bwthyn Bryn Gwylan yn gwella ar ôl dod adref o'r ysbyty.

CYDYMDEIMLAD: Drwg gennym glywed fod Mrs Williams, 1 Ael-y-Bryn wedi cael damwain yn ei chartref, gobeithio ei bod yn gwella.

COFION: Anfonwn ein cofion cynhesaf at holl drigolion y pentref

sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar a dymunwn wellhad buan iddynt i gyd.

Mae'n dda deall fod Andrew Parry, Bro Waun wedi cwblhau ei driniaeth yn Ysbyty Christie's, Manceinion, dymunwn y gorau iddo yn y dyfodol.

CYDYMDEIMLWN â Miss Owilda Williams, Fron Llwyd yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

DIOLCH; Dymuna Michael a Delyth, Tan-y-Coed ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab bach, Deion Endaf.

DYMUNA Andrew Parry, 17 Bro Waun ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl ddymuniadau da a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

CLWB Y BLAID: Dyma enillwyr mis Chwefror:

1. John Huws, Argoed; 2. Rob Jones, Tan-y-Fron; 3. Mrs M B Davies, Bryn Eithin.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Daeth cynulliad da i'r Ganolfan nos Lun, Ionawr 30 i weld ffilm yn portreadu bywyd a gwaith y diweddar Syr Thomas Parry-Williams, dan y teitl "Y llanc o Eryri". Wedi'r ffilm cafwyd gair gan y Cynhyrchydd, sef Mr John Roberts Williams. Llywydd y noson oedd Mr Emllyn Davies, Bodwyn ac wrth gynnig y diolchiadau cyfeiriodd Mr Gwilym Williams, Bodhyfryd at y llawenydd o weld Mr Davies wedi gwella digon i ailgydio yn ei ddiddordebau.

Nos Lun, Chwefror 13 cafodd yr aelodau noson o ddifyrrwch llwyr wrth wrando ar Mr Hywel Parry, y Groeslon yn darlithio ar hen gymeriadau yn ardal Bryn croes, yn Llyn. Y farn gyffredinol oedd fod hon yn un o'r nosweithiau mwyaf difyr a gafwyd. Llywydd y noson oedd Mr O T Jones, Bryn Gwenallt a thalwyd y diolchiadau gan Mr Sion Rh Jones, Penrhos.

Daw y tymor i ben nos Lun, Chwefror 27 gyda danteithion wedi'u darparu gan y chwiorydd ac adloniant gan deulu dawnus Ty'r Ysgol, Dinorwig a hefyd gystadleuaeth y llinell goll gyda Mr R Gwynn Davies, Bryn Eithin yn



Merched y Wawr, Waunfawr yn dathlu Gwyl Ddewi



Clwb Bowlio Waunfawr yn chwarae yn y gynghrair yn erbyn Porthaethwy.

beirniadu. Bydd trip i fannau hanesyddol yn Eifionydd gyda'r nos ym Mehefin.

DIOLCH: Dymuna Terry Parry, Bro Waun, ddiolch i'w deulu, cymdogion, ffrindiau ac i'r meddygon teulu am y dymuniadau da a'r holl garedigrwydd a dderbyniodd yn

ystod ei waeledd yn ddiweddar.

DATHLU PEN-BLWYDD:

Dathlodd Mrs W Griffiths o Stad Tref Eilian gynt, ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs Griffith sydd ym Mron Eryri, cartref yr henoed yn Llanberis.

BARA CAWS

Fydd noson yn y theatr byth yr un peth wedi i chi brofi cynhyrchiad diweddaraf Bara Caws. Mae Rigor Mortis II/Dial Dau yn siwr o'ch dychryn a'ch cosi! Mae gwledd o waed, sgrechian a chwerthin iach yn aros pawb fydd yn ei gwyllo.

Dyma'r ail gomedi arswyd i'r cwmni ei chyflwyno, bu'r Rigor Mortis gwreiddiol yn llwyddiant ysgubol, gyda phawb yn chwerthin ac yn awchu am fwy. Wedi hir ymaros dyma'r ail ddogon o gomedi arswyd i godi gwallt eich pen.

Y tro hwn mae'r milcindra a'r llofruddiaethau'n digwydd mewn cwmni theatr teithiol!

Gyda diwedd y daith yn nesâu,

mae nerfau ac emosiynau'r cast yn frau. Mewn awyrgylch o dyn-dra ac atgasedd, un peth sy'n uno'r cwmni — eu casineb llwyr tuag at y 'seren'. Ond, bu casineb nmwy fyth yn cronni yng nghalon un ohonynt, casineb sy'n arwain at ddinistr ...!

Pwy yw'r llofrudd dialgar a chyfrwys? Tybed faint o gydymdeimlad fydd ganddoch chi ato ef neu hi?

Yn gyrru ias i lawr eich cefn a gwneud i chi sgrechian mewn ofn a phleser fydd:

Sara Cracroft, Siw Hughes, Morfudd Hughes, Maldwyn John, John Pierce Jones, Tom Richmond a Dyfed Thomas

Cyfarwyddwr: Valmai Jones

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o loriau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Cyfarfod Mawrth 15, 1989
7.15 Oriel Eryri, Llanberis

"Dringo yn Eryri — ymateb dau ddiwydiant"

Dr Merfyn Jones, MA, PhD., Prifysgol Lerpwl

Dewch yn llw — aelodau hen a newydd
Manylion pellach gan yr ysgrifennydd,
Maurice Jones, Meillionen, Cwm y glo
Ffôn Llanberis 870466

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Bro Elidir (Ffôn: 871 0430).

TYSTEB DOCTOR NORA MARREN

Derbynir rhoddion at dysteb Doctor Nora Marren, ar ei hymddeoliad fel meddyg teulu yn yr ardal.

Bydd i Mr William Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch dderbyn eich rhoddion. Dyddiad cau y gronfa fydd Mawrth 14, 1989.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ionawr 26, dan arweiniad Mrs Hannah Jones a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs A B Jones, sydd yn yr ysbyty. Ein gwr gwadd am y noson oedd Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan, a chafwyd sgwrs a sleidiau am Naples, yr Aifft, Israel a Thwrci lle bu ar ei wyliau fis Tachwedd diwethaf. Diolchwyd i Mr Jones ac i'r gwestwagedd gan Mrs Jan Davies a Mrs Dilys Phillips. Y gwestwagedd oedd Mrs Kate Griffith, Mrs Glenys Jones a Mrs Betty Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Dwynwen Roberts.

DIOLCH: Dymuna Gwenda a Jane ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r ddau dîm gael mynd i Wrecsam. Hefyd i Dylan, Iestyn, Arwyn ac Aled am eu cefnogaeth wych.

Dymuna Eifion Roberts, Becws Eryri ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra yn yr ysbyty.

Dymuna Colin Thomas ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra yn yr ysbyty.

Dymuna Alice Jones, Maes Padarn ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am bopeth tra yr oedd yn yr ysbyty ac ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Dymuna Iola Owen a'r teulu, Stryd yr Wyddfa, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, sef Mrs

Lily Jones (gynt o Glan yr Afon Bungalows). Rhoddwyd yr elw o £150 i'r Feddygfa yn Llanberis. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Catherine LI Williams, ar ran yr Ysgol Feithrin, ddiolch i gangen Plaid Cymru Llanberis am eu siec tuag at y mudiad.

Hoffai teulu Llys Awel, Nant Peris ddiolch i Bwyllgor Carnifal Nant a changen Plaid Cymru Llanberis am eu rhodd anrhydeddus o fwrdd snwcer i Alan. Diolch yn fawr iddynt i gyd.

LLONGYFARCHIADAU: i Colin Owen, Dol Elidir ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

hefyd i Nia Williams, Stryd Fawr; Alice Jones, Maes Padarn; a Diana Jones, Dol Elidir.

LLONGYFARCHIADAU i Anna Williams, gynt o Fethesda St ar enedigaeth ei mab bach, brawd i Gerallt, Dylan a Delwen Haf.

- hefyd Owain Griffiths (Benji) a Shirley, Stryd Turner ar enedigaeth eu merch fach gyntaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Elwyn Wilson a Hefina ar achlysur eu priodas - ac i Glyn Trefor a Rhiannon ar achlysur eu priodas hwythau.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol sydd yn yr ysbyty neu gartref:

Mrs Elsa Orlek, Caxton House; Eifion Roberts, Becws Eryri; Thomas H Jones, Rallt Goch, Ceunant; Kevin Edwards, Elson House; Oliver Hawkins, Y Rheithordy; Mrs Rose Williams, Arosfa, Vaynol Cottages; Gillian Evans, Isallt, Stryd Newton; Mrs Martha Hughes, Maes Padarn; Colin Thomas, Maes Padarn; Alice Jones, Maes Padarn a'i thad Mr Ken Jones, Maes Padarn; Mrs Edna May Jones, Maes Padarn; Mrs Enid Roberts, Maes Padarn; Mrs A Blodwen Jones, Ffordd Capel Coch; Mrs Enlys Parry, Stryd Fawr.

CYDYMDEIMLWN â Goronwy Lewis, Stryd Ceunant a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli modryb yn yr America.

- hefyd â Charles Phillips a'r teulu, Stryd Newton ac Arfon Phillips a'r teulu, 9 Coed y Glyn yn eu

profedigaeth o golli tad a brawd o Ddeiniolen.

- hefyd â Mr Dennis Williams a'r teulu, Stryd Fawr a Mrs Betty Williams a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer a chwaer yng nghyfraith.

DYMUNIADAU GORAU i Karen Jones, Maes Padarn sydd wedi mynd i nyrsio am flwyddyn i Bagdad, Iraq. Pob lwc i ti Karen.

LLONGYFARCHIADAU i dîm pump-bob-ochr dan 10 oed Llanberis a wnaeth yn arbennig o dda mewn cystadleuaeth yn Wrecsam dydd Sul, 22 o Ionawr. Y canlyniadau oedd:

Johnstown Youth 'B' 0 Llanberis 0
Maes-y-Bryn 'A' 0 Llanberis 0
Nant Conwy 'B' 1 Llanberis 1
Marford & Gresford 3 Llanberis 1

Dim ond gêm gyfartal oeddynt eisiau yn y gêm olaf i fynd i'r gêm derfynol, ac er mai colli a wnaeth y tîm yr oedd yn gêm agos iawn yn erbyn y buddugwyr ar y diwrnod. Llanberis oedd yr unig dîm a sgoriodd yn eu herbyn drwy'r gystadleuaeth i gyd.

Gwnaeth y tîm 10-12 yn dda iawn hefyd yn erbyn timau profiadol iawn. Tair gêm oedd yn rhaid iddynt chwarae a gallasai'r canlyniadau fod wedi mynd unrhyw ffordd mewn gemau agos iawn. Y canlyniadau oedd:

Marford & Gresford 'A' 0 Llanberis 0
Johnstown Youth 'D' 1 Llanberis 0
Nant Conwy 'B' 2 Llanberis 0
Llongyfarchiadau i'r ddau dîm.



Y tîm 5-bob-ochr dan 10 oed. Aeddan Whitaker, Liam O'Donnell, Iwan Harding, Iestyn Jones, Llifon Owen ac Alun Vaughan.



Tîm 5-bob-ochr 10-12 oed: Jonathan Davies, Euron Davies, Huw O'Donnell, Gavin Carr, Iwan Jones a Jason Baylis.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs Betty Hughes, Snowdon Street a hefyd i Mr C E Thomas, Padarn.

DYMUNIADAU PEN-BLWYDD: Dymuna Janet a Linda Pitts longyfarch Gwyneth Evans, Bryn Teg ar achlysur ei phen-blwydd yn 21 oed.

PRIODAS ARIAN:

Llongyfarchiadau i Oliver a Gwen Edwards, Maes Padarn ar achlysur dathlu eu priodas arian.

DIOLCH: Dymuna Mrs Betty Hughes, Snowdon Street ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau a'i chymdogaion am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod ei gwaeledd yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Oliver a Gwen Edwards ddiolch yn gynnes i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu priodas arian.

CLWB Y MAMAU: Dymuna aelodau Clwb y Mamau ddiolch yn fawr iawn i Gangen Plaid Cymru am eu rhodd ariannol tuag at y mudiad.

YSGOL DOLBADARN:

Cyflwynwyd rhodd o £50 i'r ysgol gan bwyllgor adloniant Plaid Cymru. Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn i'r pwyllgor am eu caredigrwydd. Nos Iau, Mawrth 9 cynhelir Noson Goluro dan nawdd Cyfeillion yr Ysgol yng Ngwesty Dolbadarn am 8.00 o'r gloch. Bydd cynrychiolydd "Naturally Yours" (Cosmetics wedi eu gwneud o lysiau) yn arddangos sut i goluro ac yn cynghori pa liw sydd yn gweddu i wahanol wynepyrd. Tocynnau 50c ar gael yn yr ysgol. Gellir cael bwyd am bris ychwanegol.

YN EISIAU

Gofalwr i Angorfa. Manylion i'w cael gan Glerc y Cyngor Cymuned, Islwyn L Jones, 7 Bryn Moelyn, Llanrug. Dylai pob cais fod i law erbyn dydd Mawrth, 14 Mawrth.

GWLEDD GERDD

Diolch i bawb a gefnogodd y Noson ar Chwefror 10. Bu yn un o'r cyngherddau mwyaf llwyddiannus a gafwyd yn y fro ers peth amser — gyda neuadd Ysgol Brynrefail dan ei sang.

Casglwyd dros £1,100 i'r Uned Arennau yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Plant yn Gwerthfawrogi

Annwyl Olygydd,

Hoffem ddiolch, fel grwp a oedd yn perfformio yn y Cyngerdd Apêl yr Arennau yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar, i Rhian Owen am ein dysgu. Ein diolch hefyd i Mrs Mair Hughes am ein helpu yn yr ysgol. Diolchwn hefyd i Ruth am ganu'r piano ac i'r grwp. Pob hwyl i'r dyfodol.

Yn gywir,

Siwan, Cerys, Sera, Lynne, Claire, Nicola, Iona, Rhiannon, Rhian, Sioned, Beverley a Luned, Ysgol Gynradd Llanrug

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CORNEL Y PLANT IAU

ANIFEILIAID CUDD

Fedrwch chi ddod o hyd i ugain o anifeiliaid sy'n cuddio yn y neidr hir?



Ydych chi'n cofio llun yr eliffant yn y rhifyn diwetha o'r Eco? Wel dyma stori fach hyfryd gan Gwion Iwan o Lanrug. Da iawn ti Gwion — Mae gwobr yn y post i ti!

Cofiwch chithau hefyd anfon eich gwaith i'r Gornel. Efallai mai chi gaiff y wobwr am y mis yma!

Y cyfeiriad fel arfer yw Y Gornel, Eco'r Ifanc, Pant Bryn Gwyn, Tan-y-Coed, Llanrug.

EISIAU DIOD

Un tro roedd eliffant yn mynd i nôl dwr o'r afon ond cafodd sioc pan welodd bod y llyn wedi rhewi yn gorn. Roedd crocodeil yn y dwr. Agorodd ei geg. Roedd o'n mynd i frathu trwnc yr eliffant. Rheddodd yr eliffant i lyn arall a daeth yn ôl hefo llond ei drwnc o ddwr. Rheddodd y dwr i mewn i geg y crocodeil. Boddodd y crocodeil, a malu'r rhew yn ddarna' mân, mân a chafodd yr eliffant ddwr o'r diwedd. Aeth adre' hefo llond ei drwnc o ddwr.

Gwion Iwan (6 oed)
4 Tal y bont, Llanrug

CORNEL JÔCS

Athro: Pa fath o dywydd sydd yn Seland Newydd?
Dic: Tywydd oer, syr.
Athro: Anghywir, Dic.
Dic: Ond syr, mae'u cig nhw wastad 'di rhewi.

Athro: Gosodwch "a'i" mewn brawddeg i mi, Siân.
Siân: Rydw i'n byw ym Mangor-ai!!

Ha Ha! Ho Ho!

Mrs Jones y Mans: Pam rydych chi mor dawel Elen?

Elen: Mae mam wedi rhoi punt i mi er mwyn i mi beidio dweud dim am elch trwyn chi!

Elen: Pam wyt ti'n neidio i fyny ac i lawr?

Idwal: Dwi 'di llyncu ffisig ac wedi anghofio ysgwyd y botel!

Mam: Robin, tyrd i eistedd i ddangos dy adroddiad ysgol i mi.

Robin: Dwi'n methu eistedd — dwi newydd ei ddangos i Dad!

Ha Ha!! Ha Ha!!

Wil: Dwi'n medru chwarae tenis-bwrdd hefo hen wy. Mae'r ping braidd yn wan, ond mae'r pong yn gryf iawn!

Ble mae Noa yn siopa?
— Yn yr archfarchnad!

Idwal: Mam, ga'i enseiclopedia?
Mam: Na chei — cerdda i'r ysgol fel pawb arall!

Ha ha ha!
ha ha ha!

'Dwi ar ddeiet olew llysiau.
Wyt ti 'di colli pwysau?
Naddo, ond dwi 'di stopio gwichlan!

Beth yw hoff losin llyffant?
— Lolihop!

Pa llysieuyn sy'n hoff o chwarae snwcer?
— CIWcymbyr!

Pam 'da chi'n chwarae rygbi hefo'r dorth 'na?
— Ry'n ni eisiau i'r gêm bara!

Ho ho!
Ho ho!

Atebion:

ysltum.
malwoden; pathew; ci; iâr;
chillen; neidr; carlwm;
dyfrgi; uddill; arth; llyffant;
gwadd; draenog; datad;
madall; llew; wlew; eryr;

Lliwiwch y llun — Defnyddiwch y lliwiau priodol

1. Pinc
2. Melyn
3. Glas
4. Gwyrdd
5. Coch



ECO'R IFANC

Oes ganddo chi Jôcs da i'w rhannu hefo ni?
Cofiwch eu hanfon i'r 'Gornel'

CWBLHEWCH Y GEIRIAU



**COFIWCH ANFON EICH STORIÂU, HANE-
SION NEU JÔCS I ECO'R IFANC, PANT
BRYN GWYN, TAN-Y-COED, LLANRUG.**

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

DYDDIADUR Y MIS

1. **Mercher:** DEINIOLLEN: Merched y Wawr. Cinio Gwyl Ddewi yn y Fictoria, Llanberis; LLANRUG: Plaid Cymru. Dathlu Gwyl Ddewi yng Nglangwna, Cacathro gyda Geraint Lovgreen a'r Enw Da. 7.30.
2. **Iau:** WAUNFAWR: Clwb Gwyrfa - Dathlu Gwyl Ddewi.
3. **Gwener:** PENISARWAUN: Pwyllgor y Neuadd — Cawl a Chân yn Neuadd yr Eglwys. 7.15; YR ARDAL: Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Anerchiad gan W Williams, LL.B., Tregarth; LLANRUG: Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr — Swper Gwyl Ddewi; LLANBERIS: Te yr Henoed; DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Band. 8.00
4. **Sadwrn:** YR ARDAL: Eisteddfod yr Urdd, Cylch Arfon. FERMWYR IEUANC CAERNARFON. Eisteddfod Clybiau Eryri — Neuadd y Dref, Pwllheli. 5.30.
6. **Llun:** DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched — Cinio Gwyl Ddewi.
8. **Mercher:** Diwrnod Cenedlaethol Di-Ysmygu. WAUNFAWR: Yr Urdd — Ymweliad â Gorsaf Dân Caernarfon.
9. **Iau:** LLANRUG: Ysgol Feithrin — Noson Goffi a Stondinau yn yr Ysgol Gynradd. 7.00.
10. **Gwener:** DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Band. 8.00; DEINIOLLEN: Disgo i'r plant yn Ysgol Gwaun Gynfi. 6.30; CLYBIAU FFERMWYR IEUANC — Cinio Blynnyddol.
13. **Llun:** BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched.
14. **Mawrth:** LLANRUG: Merched y Wawr. Cinio Gwyl Ddewi yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis.
17. **Gwener:** DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Band. 8.00 LLANBERIS: Te yr Henoed; DEINIOLLEN: Noson Goffi yn Festri Ebeneser am 7.00 at Apêl To Newydd i'r Capel.
24. **Gwener:** DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Band. 8.00.
31. **Gwener:** DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Band. 8.00.

RHODDION parhad o Dudalen 2 Glanffynnon, Llanrug; Mrs K Lewis, (Deiniolen gynt). £2: Miss Nell Thomas, Buarth Newydd, Dinorwig; Owie a Beryl Hughes, Rhydfadog, Deiniolen; Mr a Mrs Sharp, Bethel. £1: Mr a Mrs O Thomas, 3 Tai Newyddion, Penisarwaun.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

Am bob math o
WYDR wedi ei
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD
cysylltwch â

Barrys GLASS



Camelot
PENSIARWAUN
Ffôn: Llanberis 870486

CYMDEITHAS RHINI AC

ATHRAWON YSGOL BRYNREFAIL

Ysgol Brynrefail, Nos Iau, Mawrth 16 am 7.30pm
Noson yng nghwmni

**John Ogwen a
Maureen Rhys**

Pris mynediad £1.00 (50c i blant a phensiynwyr)
Darperir paned a lluniaeth ysgafn



Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag


ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**



Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman
LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa
wythnosol. Dewch i weld ein
amrywiaeth eang o fwydydd
**Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta,
Fferins, Dioddydd, Ffrwythau Sych,
Grawnfwydydd etc.**

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL
EICH ANGEN
AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CHWARAEON

PÊL-DROED

Ni chwaraewyd llawer o gemau'r cynghreiriau yn ystod y mis gan fod y glaw trwm sy'n mynnu disgyn bob pen-wythnos yn ei gwneud bron yn amhosibl i ddefnyddio'r caeau. Er hynny mae ail dîm Llanrug yn parhau'n gyfforddus ar gopa tabl Cynghrair Sain, Caernarfon a'r Cylch tra mae tîm cyntaf Llanberis bellach yn ymosod ar safleoedd uchaf Cynghrair Gwynedd. Roedd eu buddugoliaeth o 3 i 1 yn Nefyn y Sadwrn diwethaf yn ganlyniad ardderchog.

RHWYDO I'R FASGED

Dwy gêm sy'n boblogaidd dros ben ymysg disgyblion Ysgol Brynrefail yw Pêl Rwyd a Phêl Fasged. Mae'r ddwy yn debyg iawn i'w gilydd gyda'r nôd ynddynt o gael y bêl i ddisgyn drwy'r cylch a'r rhwyd. Genethod fydd yn chwarae pêl rwyd a bechgyn bêl fasged fel arfer.

Bu timau pêl rwyd yn yr ysgol er blyneddod, ac fe chwaraeir yn erbyn ysgolion eraill y cylch unai allan yn yr awyr agoed neu o dan do yn y gampfa.

Gêm i'r gampfa yn sicr ydi pêl fasged, ac fe'i chwaraeir gan gewri o ddynion. Fe gofiwch weld timau fel yr Harlem Globe Trotters ar y teledu rwy'n siwr, a'r aelodau i gyd ymhell dros eu dwylath.

Does yr un cawr, o ran taldra beth bynnag, yn y tîm a sefydlwyd yn ddiweddar yn yr ysgol, ac er mai prin wedi dysgu'r rheolau mae'r hogia, maent yn llawn brwdfrydedd ac yn gweithio'n galed ar eu sgiliau. Colli'n drwm fu eu hanes yn eu gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Botwnnog, a does ryfedd gan fod pedwar o hogia'r ysgol honno yn chwarae dros Gymru! Daliwch ati hogia. Mark Williams sy'n ceisio rhwydo yn y llun, ac mae'r edrychiad ar wynebaw gweiddill yr hogia yn awgrymu ei fod yn siwr o sogrio rhywdro!



Yr aelodau o dîm pêl rwyd y bumed flwyddyn, fydd yn cystadlu ym mhencampwriaethau Gwynedd ym Mangor ar Fawrth 2il yw Gwenlli Roberts, Anwen Parry, Tracy Hughes, Jennifer Clarida, Einir Thomas, Julie Baylis a Katie Grant gyda'u hyfforddwr, Miss Gwyneth Davies.



RHEDEG TRAWS GWLAD

Colin Jones o Bontrug ddaeth yn



gyntaf ym Mhencampwriaeth Ysgolion Gwynedd yn ystod mis Chwefror yn y ras i fechgyn dan 17 oed.

Ail oedd safle Linda Prydderch o Lanberis yn y ras i enethod ac o ganlyniad bydd y ddau yn cynrychioli Ysgolion Gwynedd ym Mhencampwriaethau Cymru yn y Bari ar Fawrth 4ydd. Pob lwc iddynt.

Yn y llun ar y chwith, fe welir hefyd chwaer Colin, sef Caroline (yn sefyll ar y dde). Bu hi'n fuddugol ym Mhencampwriaeth Ysgolion Arfon yn y ras i enethod o dan 13eg oed. Nid oes pencampwriaethau Gwynedd na Chymru ar gyfer plant o'r oedran yma.

PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Unwaith yn rhagor rydym ar drothwy tymor newydd a misoedd y gaeaf wedi chwibanu heibio. Mae'n siwr na fydd llawer ohonom yn mentro allan i'r afonydd ar y diwrnod cyntaf, sef y 3ydd o Fawrth, ac efallai y byddai'n beth doeth nodi mai ar yr afonydd yn unig y caniateir pysgota ar y 3ydd, nid yw'r llynnoedd yn agor tan yr 20fed o'r mis.

Fel mae llawer wedi sylwi mae'n siwr, mae peth wmbreth o waith wedi ei wneud yn ddiweddar, nid yn unig ar lanhau a thacluso'r glannau, ond hefyd i geisio rhoi tipyn o raen ar fuddiannau eraill y Gymdeithas. Gwelir hyn yn amlwg iawn yng Nghrawia ble mae lle parcio wedi ei greu ar ddam o dir oedd gynt yn ddolur i'r llygad. Mae gwaith tebyg ar y gweill hefyd ym Mhont Rug, a gobeithir y bydd wedi ei orffen ymhén ychydig wythnosau.

Y tymor yma hefyd daw nifer o reolau newydd i rym. Un o'r rhai pwysicaf mae'n debyg yw'r un sydd yn gwahardd defnyddio cynrhon gan 'sgota'r gwaelod', gan fod y dull yma o bysgota yn niweidiol, gan ei fod yn gyfrifol am ddal nifer o gywion yr eog a'r Sewin. Dylid dweud hefyd nad ar yr afonydd yn unig y mae'r rheol yma yn sefyll.

FFEINAL TLWS LONSDALE

Ar fore Sadwrn, Chwefror 4ydd, ar gae ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, fe gynhaliwyd y gêm derfynol am y Tlws Lonsdale i fechgyn dan 14eg oed — Cynghrair Gwyrfa — am y tymor 1987/88. Gohiriwyd y gêm hon o'r tymor diwethaf oherydd gormod o gemau Cynghrair ddiwedd y tymor.

Y ddau dîm yn cystadlu am y tlws oedd Llanrug a Llanllechid. Llanrug oedd yn chwarae gyda'r gwynt yn yr hanner cyntaf, ond un gôl yn unig o fantais oedd ganddynt ar hanner amser. Yn fuan iawn yn yr ail hanner daeth Llanllechid yn gyfartal ac yn fuan wedyn, aethant ar y blaen ac yn diwedd yn ennill o 7 gôl i 1.

Llongyfarchiadau i'r ddau dîm am gêm hynod o dda o dan amgylchiadau anodd.

Tim Llanrug oedd: Mark White, Kevin Tame, Gareth James, Iolo Eilian, Dyfed Thomas, Osian Gwynedd, Huw Humphreys, Kevin Wyn, Bedwyr Evans, Gethin Parry, Bryn Jones. Eilyddion: Alan Jordan, Meical Owen. Rheolwr: Mr Irfon Thomas.

Oherwydd anaf i'w goes nid oedd prif sgoriwr y tîm, sef Aled Griffiths, yn chwarae yn y gêm hon. Brysia wella Aled.



TÎM HOCI YSGOL BRYNREFAIL

Bu tîm hoci yr ysgol, a ail-sefydlwyd yn ddiweddar gan Miss Gwyneth Davies, yr athrawes ymarfer corff newydd yn cystadlu yn ddiweddar mewn dau dwrnament ar gaeau ysgol Aber Conwy. Cawsant ganlyniadau ardderchog o ystyried eu diffyg profiad, gan gyrraedd rownd gyn-derfynol y bencampwriaeth i rai dan 16 oed, a chael eu curo gan Ysgol Eifionydd, sef y pencampwr yn y gystadleuaeth i enethod dan 18 oed.

Mae'r canlyniadau yn fwy trawiadol pan ystyrir mai yr un genethod fu'n cystadlu ddwywaith ac mai disgyblion o'r drydedd a'r bedwaredd flwyddyn ydynt. Gobaith am dîm da yn y dyfodol felly, daliwch ati genod. Y tîm yw: June Williams, Louise Murphy, Nerys Powell, Jenny Hornby, Julie Cole Jones, Nicola Houston, Susan Kelly, Michelle Willis, Annette Sellars, Linda Pryderch, Judith Jones, Dawn Owen, Tammy Massey a Sioned Lewis.

